# Addasiadau heb oedi

*Canllawiau ar gynllunio a darparu addasiadau cartref mewn modd gwahanol*

**Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol**




Housing LIN
*Connecting people, ideas and resources*

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Adran Arbenigol
Tai

**Teitlau eraill o ddiddordeb:**

Cartrefi gofal ac offer: egwyddorion arweiniol ar gyfer asesiad a darpariaeth (2019)

Therapi galwedigaethol a chymhlethdod: diffinio a disgrifio ymarfer (2018)

I gael manylion pellach, mwy o gyhoeddiadau a dogfennau i'w lawrlwytho am ddim ewch i:
**www.rcot.co.uk/publications**


## Am y cyhoeddwr

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn is-gwmni sydd yn eiddo llwyr i Gymdeithas Brydeinig y Therapyddion Galwedigaethol (BAOT) ac mae'n gweithredu fel elusen gofrestredig. Mae'n cynrychioli'r proffesiwn yn genedlaethol a rhyngwladol, ac yn cyfrannu'n eang at ymgynghoriadau polisi trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Y RCOT sy'n gosod y safonau proffesiynol ac addysgiadol ar gyfer therapi galwedigaethol, gan roi arweiniad, cyfarwyddyd a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysgu, ymarfer a dysgu gydol oes. Yn ychwanegol, mae 10 adran arbenigol wedi eu hachredu yn cefnogi ymarfer clinigol arbenigol.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

**www.RCOT.co.uk**

# Addasiadau heb oedi

*Canllawiau ar gynllunio a darparu addasiadau cartref mewn modd gwahanol*

Cymeradwywyd gan:

Care & Repair England

Care & Repair Cymru

Chartered Institute of Housing

NIFHA Northern Ireland Federation of Housing Associations

Foundations

sfha Scottish Federation of Housing Associations
We are housing Scotland

Housing LIN
*Connecting people, ideas and resources*

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

Adran Arbenigol Tai

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2019
gan Goleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol Cyf,
106–114 Borough High Street,
Llundain/London SE1 1LB
**www.rcot.co.uk**

Hawlfraint © Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol 2019

**Awdur:** Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol
**Cyfieithydd:** Gwerfyl Jones
**Ysgrifenwyr:** Rachel Russell, Marney Walker, Ian Copeman, Jeremy Porteus
**Cyhoeddwr:** Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol Cyf

Cedwir pob hawl, yn cynnwys cyfieithiad. Ni chaniateir atgynhyrchu, cadw mewn system adalw na thrawsyrru unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn drwy unrhyw fath neu unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordiad, sganio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol, os na chytunwyd neu y nodwyd fel arall. Ni chaniateir copïo heblaw ar gyfer defnydd personol a mewnol, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith hawlfraint genedlaethol, neu dan delerau trwydded a gyhoeddwyd gan y sefydliad hawliau atgynhyrchu cenedlaethol perthnasol (megis yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint yn y Deyrnas Unedig). Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd ar gyfer mathau eraill o gopïo, megis copïo ar gyfer dosbarthiad cyffredinol, ar gyfer hysbysebu neu ddibenion hyrwyddo, am greu gweithiau torfol newydd, neu ar gyfer ailwerthu, at y Rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod.

Dylid cyfeirio ymholiadau eraill am y ddogfen hon at y tîm Ymarfer Proffesiynol yn y cyfeiriad uchod.

***Data catalogio wrth gyhoeddi'r Llyfrgell Brydeinig***
Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

Er y gwnaed wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni fydd Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn.

**ISBN 978-1-905944-92-7**

Cysodwyd gan Fish Books Cyf
Argreffir yn ddigidol yn ôl y gofyn ym Mhrydain gan The Lavenham Press, Suffolk

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C010693

# Cynnwys


**Crynodeb gweithredol** ... iv

**1. Cyflwyniad** ... 1

Diben y canllawiau hyn ... 2
Cynulleidfa darged ... 3
Rôl y canllawiau hyn ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ... 3

**2. Pam *Addasiadau heb oedi*?** ... 5

Yr hyn a ganfu'r adolygiad ... 5
Beth sy'n cyfyngu darparu addasiadau heb oedi? ... 6

**3. *Addasiadau heb oedi*: fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau** ... 8

Fframwaith *Addasiadau heb oedi*: trosolwg ... 10
Diben y fframwaith ... 10
Defnyddio'r fframwaith i gefnogi penderfyniadau am lefel yr ymyrraeth sydd ei angen ... 11

**4. Sut i ddefnyddio fframwaith *Addasiadau heb oedi* yn ymarferol i wella darpariaeth addasiadau** ... 16

Cyflwyniad ... 16
Sut i ddefnyddio'r fframwaith i ddarparu ymateb cymesur ... 16
Sut i ddefnyddio'r fframwaith i sefydlu gweithlu gyda'r cyfuniad sgiliau priodol ... 19
Sut i ddefnyddio'r fframwaith os ydych yn adeiladwr, manwerthwr neu wneuthurydd cynnyrch ... 23
Sut i ddefnyddio'r fframwaith os ydych yn aelod o'r cyhoedd ... 24

**Atodiad 1. Ffynhonnell arweiniad ar ddylunio** ... 27

Addasiadau ... 27
Tai cynhwysol a hygyrch ... 29
Amhariadau gwybyddol ... 31
Nam ar y golwg ... 32

**Atodiad 2. Dull a chanfyddiadau'r adolygiad** ... 34

**Am yr awduron ... 38**
**Aelodau'r grŵp llywio ... 40**

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Caiff manteision addasu'r cartref eu cydnabod fel ffordd effeithlon o wella iechyd a llesiant pobl hŷn, ac oedolion a phlant anabl. Gall amgylchedd cartref mwy hygyrch wella annibyniaeth, gostwng risg a gostwng dibyniaeth ar gymorth. Wrth i'r corff tystiolaeth arddangos manteision addasiadau cartref gynyddu, felly hefyd y gydnabyddiaeth po gyntaf y cânt eu gosod, y mwyaf fydd y manteision ataliol.

Ar draws y Deyrnas Unedig mae oedi yn parhau i fod wrth ddarparu addasiadau mân a mawr ar draws pob daliadaeth tai. I gydnabod y broblem barhaus hon, yn 2017 fe wnaeth Coleg Brenhinol Therapi Galwedigaethol (RCOT) gomisiynu yr Housing Learning and Improvement Network (Housing LIN) i gynnal adolygiad ar draws y Deyrnas Unedig o *Minor adaptations without delay* (2006), oedd yn canolbwyntio ar alluogi cymdeithasau tai i ddarparu mân addasiadau heb fod angen asesiad therapi galwedigaethol, ac i ddynodi os oedd angen fersiwn newydd.

## Adolygiad o ymarfer cyfredol

Roedd adolygiad Housing LIN yn helaeth. Roedd yn cynnwys adolygiad polisi a deddfwriaeth ar draws y Deyrnas Unedig yn gysylltiedig ag asesu a darparu addasiadau; ymgynghori â rhanddeiliaid ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban oedd yn cynnwys cyfweliadau ffôn gyda rheolwyr gwasanaethau therapi galwedigaethol, darparwyr tai, cymdeithasau tai, asiantaethau gwella cartrefi, a gwasanaethau gofal a thrwsio; arolwg cenedlaethol a gwblhawyd gan 800 o ymarferwyr rheng flaen; a grwpiau ffocws yn cynnwys personél allweddol a sefydliadau o bedair cenedl y Deyrnas Unedig.

Roedd canfyddiadau allweddol yr adolygiad fel sy'n dilyn:

- Mae'r angen am ddull mwy ataliol at ymyraethau yn thema gyffredin mewn deddfwriaeth a pholisi ar draws y Deyrnas Unedig, yn cynnwys addasiadau ar gyfer pobl hŷn, plant ac oedolion anabl, i gynyddu iechyd a llesiant i'r eithaf.
- Nodir fod aros am asesiad gofal cymdeithasol yn ffactor allweddol wrth gyfrannu at oedi wrth ddarparu addasiadau. Cafodd deddfwriaeth yn cyfeirio at gyllid ar gyfer addasiadau mawr ei chamddehongli fel bod yn ddibynnol ar asesiad therapi galwedigaethol.
- Mae angen i'r systemau cyfredol ar gyfer addasiadau ddarparu deilliannau sy'n canolbwyntio ar y person drwy ddull mwy integredig a chydweithredol ar gyfer asesu, dylunio a gosod addasiadau.
- Yn nhermau'r galw am addasiadau mawr, y mwyaf cyffredin yw cawodydd, lifftiau grisiau a rampiau, yn aml mewn sefyllfaoedd syml.
- Fel arfer, caiff yr angen am addasiad ei ddiffinio gan y math o ddatrysiad neu'r gost, yn hytrach na *chymhlethdod* y sefyllfa.

- Cydnabyddir fod cyfran fawr o bobl nad ydynt yn gymwys am gyllid ar gyfer addasiadau a allai fanteisio o well gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar sut i gael addasiadau wedi eu gosod.

## *Addasiadau heb oedi*: canllawiau

O ganfyddiadau'r adolygiad roedd yn glir fod angen dull sylweddol wahanol i fynd i'r afael â'r oedi wrth asesu a darparu addasiadau. Mae'r dull newydd hwn yn gosod ffordd well o ddiffinio addasiadau yn seiliedig ar *gymhlethdod*. Mae'n canolbwyntio ar rôl addasiadau fel ymyrraeth ataliol i gefnogi deilliannau sy'n canolbwyntio ar y person yn defnyddio dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r cyfuniad sgiliau o fewn y gweithlu.

Mae canllawiau *Addasiadau heb oedi* yn rhoi dull newydd ffres. Cafodd ei ddatblygu mewn cysylltiad gyda'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses adolygu a grŵp llywio RCOT. Prif nod y canllawiau yw gostwng oedi wrth ddarparu addasiadau drwy roi dulliau sy'n cefnogi ymateb cymesur. Mae'r canllawiau hefyd yn sicrhau y gellir defnyddio sgiliau gwerthfawr ac arbenigol therapyddion galwedigaethol i weithio gyda'r nifer cynyddol o unigolion y mae eu hamgylchiadau yn gymhleth.

Mae'r canllawiau'n cyflwyno fframwaith gwneud penderfyniadau *Addasiadau heb oedi*. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r deilliannau canolbwyntio ar y person y gellir eu cyflawni o gael y cartref wedi'i addasu. Dynodir ffactorau gweithlu a gweithredol i gefnogi ffyrdd integredig a newydd o weithio. Mae'r fframwaith yn amlinellu gwahanol lefelau *cymhlethdod* y sefyllfa, yn hytrach na chost a'r math o addasiad. Diffinnir y lefelau cymhlethdod fel:

- Cyffredinol (syml, lefel isel).
- Targedig (syml, cymedrol).
- Arbenigol (cymhleth, risg uchel).

Mae'r canllawiau'n amlinellu amgylchiadau pan mae angen i therapyddion galwedigaethol weithio'n agos gyda'r rhai gyda'r arbenigedd technegol angenrheidiol i sefydlu a datblygu addasiadau pwrpasol a sicrhau fod y gwaith gosod yn bosibl. Mae'r canllawiau'n amlygu ffyrdd y gall therapyddion galwedigaethol ychwanegu gwerth ar lefel strategol wrth ddylunio gwasanaethau, dulliau cyfathrebu a darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer staff heb eu rheoleiddio.

Mae enghreifftiau ymarfer ar draws y Deyrnas Unedig yn cynnwys:

- Hyfforddiant a chymorth i alluogi gweithwyr cymorth, aseswyr dibynadwy a chymhorthwyr therapi galwedigaethol i asesu a gwneud argymhellion ar gyfer addasiadau mawr lle mae'r sefyllfa yn syml.
- Defnyddio systemau brysbennu a dyletswydd ar y pwynt cyswllt cyntaf i ddynodi os oes angen mewnbwn therapydd galwedigaethol i gefnogi ymateb mwy cymesur ac amserol.
- Gwasanaethau integredig sydd wedi sefydlu'r cyfuniad sgiliau cywir yn y gweithlu er mwyn rhoi ymateb cymesur i ostwng oedi wrth osod addasiadau.

- Gwasanaethau sy'n cydnabod gwerth sgiliau therapyddion gweledigaethol drwy ganolbwyntio ar achosion cymhleth.

Mae'r canllawiau'n rhoi rhestr o'r hyn a ystyrir yw'r enghreifftiau gorau o ganllawiau technegol a dylunio i gyflawni'r addasiadau mwyaf hygyrch, yn ogystal â dylunio i drin anghenion pobl gydag amhariadau synhwyraidd a gwybyddol.

Bwriedir i'r canllawiau fod â'r manteision dilynol :

- Sicrhau gwasanaeth mwy ymatebol i'r rhai sydd angen addasiadau.
- Gostwng galw ar wasanaethau therapi galwedigaethol.
- Darparu rhesymau i randdeiliaid allweddol am addasiadau nad ydynt angen eu hasesu gan therapydd galwedigaethol.
- Adnabod arbenigedd therapyddion galwedigaethol mewn sefyllfaoedd cymhleth lle mae angen addasiadau.
- Bod yn weithredol ym mhob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig.

## Cynulleidfa arfaethedig

Bwriedir i'r canllawiau a'r fframwaith gael eu defnyddio ar lefel ymarferydd a strategol gan bersonél mewn gwasanaethau therapi galwedigaethol, asiantaethau gwella cartrefi, asiantaethau gofal a thrwsio, cymdeithasau tai a darparwyr tai eraill, ond hefyd gan aelodau o'r cyhoedd sydd angen gwybod pryd i geisio cyngor gan therapydd galwedigaethol. Gallant hefyd fod o ddiddordeb i gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac ymarferwyr gofal lle mae angen addasiad i helpu hwyluso gofal a chefnogaeth rhywun adref neu mewn ailalluogi.

# 1 Cyflwyniad

Mae cydnabyddiaeth eang y gall rhai newidiadau syml i amgylchedd eu cartrefi lwyr drawsnewid bywydau pobl hŷn, pobl anabl a phlant drwy eu galluogi i weithredu'n fwy rhwydd a diogel yn eu cartrefi eu hunain.

> Canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod tua 1.8 miliwn o bobl anabl angen cartrefi addas ac nad oes gan tua 300,000 yr addasiadau maent eu hangen yn eu cartrefi presennol.[1]

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn cefnogi'r farn y gall addasiadau cartref atal pobl rhag syrthio, gostwng derbyniadau ysbyty, gostwng dibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i ofal preswyl a gwella ansawdd bywyd a llesiant yn sylweddol ar gyfer unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.[2] Ar yr un pryd, mae'r farchnad fanwerthu ac adeiladwyr annibynnol yn dechrau addasu i newidiadau dan arweiniad defnyddwyr. Mae potensial ar gyfer marchnad hunanariannu gynyddol ar draws pob daliadaeth ar gyfer offer ac addasiadau.

Mae nifer o ffactorau (yn cynnwys newidiadau demograffig) felly'n cynyddu'r galw am addasiadau cartref. Eto ar draws y Deyrnas Unedig mae oedi sylweddol yn parhau wrth ddarparu addasiadau.[3] Dengys adolygiad diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn Lloegr[4] fod angen mawr i bob gwasanaeth cysylltiedig fedru darparu ymateb mwy amserol i osod addasiadau a all sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer y person. Yng Nghymru, canfu'r Archwilydd Cyffredinol mai dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan gyrff cyhoeddus o fanteision hirdymor addasiadau tai, ac mae cwmpas sylweddol yn parhau i ddiwygio'r system i wella cydraddoldeb a llesiant.[5]

1 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Housing and disabled people: Britain's hidden crisis.* [a. l.]: Equality and Human Rights Commission. Ar gael yn: *https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-britains-hidden-crisis-main-report_0.pdf* Cyrchwyd ar 16.11.18.

2 Centre for Ageing Better (2017) *Room to improve: the role of home adaptations in improving later life.* [Llundain]: Centre for Ageing Better. Ar gael yn: *https://www.ageing-better.org.uk/publications/room-improve-role-home-adaptations-improving-later-life* Cyrchwyd ar 09.11.19.

3 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Housing and disabled people: Britain's hidden crisis.* [a. l.]: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Ar gael yn: *https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-britains-hidden-crisis-main-report_0.pdf* Cyrchwyd ar 16.11.18.

4 Mackintosh S, Smith P, Garrett H, Davidson M, Morgan G, Russell R (2018) *Disabled Facilities Grant (DFG) and other adaptations reviews*: *external report*. Prif adroddiad. Bryste: University of the West of England. Ar gael yn: *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/762920/Independent_Review_of_the_Disabled_Facilities_Grant.pdf* Cyrchwyd ar 12.03.19.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru (2018) *Addasiadau tai*. Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru. Ar gael yn: *http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/housing-adaptations-2018-welsh.pdf* Cyrchwyd ar 12.03.19.

P'un ai'n seiliedig mewn tai, iechyd neu ofal cymdeithasol, mae gan therapyddion galwedigaethol rôl sefydlog wrth gynnal asesiadau a gwneud argymhellion ar gyfer addasiadau, a yrrwyd yn bennaf gan oblygiadau statudol. Mae eu gallu arbenigol yn werthfawr tu hwnt wrth gyfrannu at ganfod y datrysiadau cywir i gefnogi pobl hŷn ac anabl yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o sefyllfaoedd syml nad ydynt efallai angen asesiad neu ymyrraethau therapi galwedigaethol arbenigol. Mae hyn yn neilltuol o wir lle mae gosod addasiad neu ddarn o offer mewn modd amserol yn atal neu oedi datblygu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy dwys.

## Diben y canllawiau hyn

### SUT Y DDEFNYDDIO'R CANLLAWIAU

Bydd y canllawiau hyn yn eich galluogi i:

- **Gostwng oedi** drwy osgoi dylunio a darpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar gost a math addasiad.
- **Gwneud defnydd mwy effeithlon** o therapyddion galwedigaethol drwy ddeall sgiliau'r gweithlu a'r ystyriaethau gweithredol sydd eu hangen i ddarparu addasiadau.
- **Gostwng oedi** lle cafodd deddfwriaeth a rôl therapyddion galwedigaethol ei gamddehongli.
- **Deall y math o sefyllfaoedd** lle nad oes angen i therapydd galwedigaethol gymryd rhan yn yr asesiad ar gyfer addasiad.
- **Datblygu neu ailddylunio modelau darpariaeth gwasanaeth** yn seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar y person ac ataliol.
- **Deall pa lefel o wasanaeth addasiadau cartref** a help y gallech eu cynnig.
- **Sicrhau fod eich sefydliad yn cymryd dull gweithredu diogel ac sy'n canolbwyntio ar y person** i ddarparu addasiadau ar gyfer pobl hŷn ac anabl.

Prif ddiben y canllawiau hyn yw mynd i'r afael ag oedi wrth ddarparu pob math o addasiadau (mân a mawr) ar draws pob daliadaeth sy'n digwydd pan mae pobl yn derbyn ymateb anghymesur i'w hangen am addasiad. Gall oedi wrth osod addasiadau gynyddu risg anghenion iechyd a gofal cymdeithasol rhag datblygu neu waethygu. Dylid felly osgoi person yn gorfod aros am asesiad therapi galwedigaethol lle mae'r sefyllfa a'r angen am addasiad yn gymharol syml.

Egwyddorion craidd y canllawiau hyn yw bod y person yn ganolog i'r broses a bod manteision ataliol addasiadau yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Y nod yw galluogi pob gwasanaeth sy'n ymwneud gydag addasiadau i ddarparu ymateb mwy cymesur ac amserol, gostwng oedi wrth osod addasiadau a lliniaru tebygrwydd gorfod mynd i ysbyty yn annisgwyl neu symud i ofal preswyl neu nyrsio os nad dyna ddymuniad y person. *Y bwriad yw gwneud y defnydd gorau o sgiliau a gwybodaeth eang pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses addasu.*

## Cynulleidfa darged

Bwriedir i *Addasiadau heb oedi* gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr neu sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig y gall pobl anabl a hŷn a'u teuluoedd sy'n ceisio cyngor neu gymorth gydag addasiadau cartref gysylltu â nhw, yn cynnwys:

- Therapyddion galwedigaethol mewn gosodiadau iechyd, gofal cymdeithasol a thai.
- Therapyddion galwedigaethol mewn ymarfer annibynnol.
- Rheolwyr a swyddogion tai, syrfëwyr a staff eiddo cymdeithasau tai.
- Rheolwyr a swyddogion tai, syrfëwyr a staff eiddo awdurdodau lleol.
- Staff technegol a gweithwyr achos asiantaethau gofal a thrwsio.
- Staff gwasanaethau tasgmon.
- Staff technegol a gweithwyr achos asiantaethau gwella cartrefi (Lloegr).
- Comisiynwyr ac ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Aelod o Gydfyrddau Integredig (yr Alban).
- Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Cymru).
- Aelodau Byrddau Iechyd a Llesiant (Lloegr).
- Swyddogion iechyd yr amgylchedd/swyddogion grantiau.
- Staff tai/ymwelwyr cartref mudiadau gwirfoddol.
- Sefydliadau sy'n cyflwyno hyfforddiant ar asesu a darparu addasiadau.
- Unigolion a'u teuluoedd y mae angen iddynt wybod am sut i gael gosod addasiadau.

## Rôl y canllawiau hyn ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd

### Darparwyr tai

Mae *Addasiadau heb oedi* yn adeiladu ar y cyhoeddiad blaenorol *Minor adaptations without delay* (2006), oedd yn rhoi rhesymeg i gefnogi cymdeithasau tai i ddarparu mân addasiadau heb asesiad therapi galwedigaethol. Yn hytrach na darparu ystod sefydlog o fân addasiadau, bydd y canllawiau hyn yn helpu darparwyr tai i ystyried sut i ddarparu ystod ehangach o addasiadau i'w tenantiaid heb ymgyfraniad uniongyrchol therapydd galwedigaethol.

## Gwasanaethau tai awdurdodau lleol, asiantaethau gwella cartrefi ac asiantaethau gofal a thrwsio

Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer ystyried yr ymateb mwyaf addas i angen person am waith addasu. Yn seiliedig ar gymhlethdod y sefyllfa, bydd y fframwaith yn cynorthwyo'r rhai sy'n darparu addasiadau ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r cyfuniad sgiliau a'r ystyriaethau gweithredol sydd eu hangen i ddarparu ystod ehangach o addasiadau heb ymgyfraniad uniongyrchol therapydd galwedigaethol.

## Therapyddion galwedigaethol

Mae'n rhoi dulliau i helpu therapydd galwedigaethol i esbonio gwerth eu rôl yn y broses addasu. Drwy amlygu sut y mae eu sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol yn cyfrannu at y broses addasu, mae'r canllawiau a'r fframwaith yn helpu i ddynodi ym mha amgylchiadau y gall therapyddion galwedigaethol fod yn fwyaf effeithlon mewn achosion unigol, ar lefel weithredol ac wrth gynllunio gwasanaethau yn strategol.

## Comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac ymarferwyr gyda chyfrifoldeb am wella darpariaeth addasiadau

Mae'n amlygu bod oedi wrth ddarparu addasiadau yn aml yn ganlyniad yr ymagwedd ddarniog at asesu, cyllido a gosod addasiadau. Mae gwell integreiddiad ar dai, iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi cyfle i ystyried sut y gellir darparu addasiadau heb oedi. Mae hefyd yn rhoi golwg gyffredinol ar fframwaith *Addasiadau heb oedi* (Adran 3), gan roi dealltwriaeth i'r rhai gyda chyfrifoldeb strategol am integreiddio neu gomisiynu am sut y gellir trin gofal a chymorth unigolion gyda gwahanol anghenion drwy wahanol fathau o ymyraethau addasu i sicrhau deilliannau gwell sy'n canolbwyntio ar y person.

## Manwerthwyr, cyflenwyr cynnyrch ac adeiladwyr annibynnol

Mae pobl hŷn ac anabl yn dod yn llai dibynnol ar, neu'n cael eu cyfeirio ymaith o, wasanaethau statudol. I addasu eu cartrefi, mae llawer o bobl hŷn ac anabl yn prynu cynnyrch neu'n cyflogi adeiladwyr eu hunain. Mae felly'n hanfodol fod y sector hwn yn darparu gwasanaethau diogel sy'n canolbwyntio ar y person. Gall y fframwaith helpu i lywio manwerthwyr, cyflenwyr cynnyrch a chontractwyr annibynnol i ddeall pryd mae angen iddynt ymgynghori gyda therapydd galwedigaethol am gymorth i ddylunio a gosod y datrysiad cywir.

## Aelodau o'r cyhoedd

Er bod ffocws yr arweiniad yn y cyhoeddiad hwn ar asesu a darparu addasiadau, bydd y cyhoeddiad yn ddefnyddiol hefyd i aelodau o'r cyhoedd. Bydd dealltwriaeth well o sut y gallai addasiadau helpu, a pha fath o wasanaeth maent ei angen i drin y math o broblemau a all fod ganddynt, yn eu helpu i gael addasiad wedi'i osod heb oedi.

# 2 Pam *Addasiadau heb oedi*?

**WYDDECH CHI?**

Gall atal neu ostwng oedi cyn i bobl dderbyn addasiadau:

- Helpu pobl i aros yn iach yn eu cartref am fwy o amser.
- Rhoi dewis a rheolaeth i bobl dros eu hiechyd a'u llesiant.
- Helpu pobl i gael mynediad i'r gymuned ehangach.
- Atal neu ostwng risg syrthio.
- Gostwng yr angen am ofal ffurfiol, gofal anffurfiol a gofal preswyl.
- Osgoi pobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen.

Yn 2018, cafodd yr Housing Learning and Improvement Network (Housing LIN) eu comisiynu gan y Coleg Brenhinol Therapi Galwedigaethol i gynnal adolygiad o gyhoeddiad *Minor adaptations without delay* (2006). Mae'r cyhoeddiad yn rhoi arweiniad i gefnogi cymdeithasau tai i ddarparu mân addasiadau heb fod angen atgyfeirio am asesiad therapi galwedigaethol. Ystyriodd yr adolygiad os oedd angen diweddaru'r canllawiau, ac os felly, sut y gellid eu gwneud yn berthnasol i randdeiliaid ar draws y Deyrnas Unedig. Caiff y dull adolygu a'r canfyddiadau eu crynhoi yn Atodiad 2.

## Yr hyn a ganfu'r adolygiad

Canfu adolygiad Housing LIN fod themâu polisi a dulliau gweithredu cyson ar draws pob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i ddarpariaeth addasiadau:

- Polisi iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y pedair cenedl yn cefnogi dull 'canolbwyntio ar y person' neu 'canolbwyntio ar y dinesydd'. Yng nghyswllt mân addasiadau, ymddengys fod hyn yn cefnogi polisi hunanasesiad ac adnabod eu hanghenion eu hunain.
- Mae gan fân addasiadau rôl ganolog yn yr 'agenda' ataliaeth, yn cynnwys gostwng nifer cwympiadau, oedi pobl rhag gorfod cael eu derbyn i ysbyty, cefnogi ailalluogi ac adferiad adref drwy alluogi rhyddhau o'r ysbyty neu atal gorfod dychwelyd i'r ysbyty.
- Caiff y broses ar gyfer darparu mân addasiadau ei gwneud drwy gyfuniad o wasanaethau offer cymunedol integredig, asiantaethau gwella cartrefi/asiantaethau gofal a thrwsio, a gan gymdeithasau tai, gyda swyddogion iechyd, gofal proffesiynol a thai neu bobl hŷn yn atgyfeirio i'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, ymddengys fod gan awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wahanol ddulliau i ddangos sut y caiff gwasanaethau ar gyfer mân addasiadau eu cyrchu a'u darparu.

- Mae potensial ar gyfer defnydd gwell o adnoddau drwy gydnabyddiaeth nad oes angen i therapyddion galwedigaethol asesu ar gyfer addasiadau sydd eu hangen i ddatys 'problemau syml'. Fodd bynnag, ymddengys mai cymharol ychydig o arweiniad sydd ar ddiffinio'r gwahaniaeth rhwng problemau syml a sefyllfaoedd cymhleth sydd angen arbenigedd therapydd galwedigaethol.

Ar draws y Deyrnas Unedig, ar lefel strategol a hefyd lefel ymarferydd, canfu'r adolygiad:

- Bod y galw mwyaf am waith addasu megis cawodydd, lifftiau grisiau a rampiau, a gaiff yn aml eu dosbarthu fel addasiadau mawr ond a all yn aml fod yn syml.
- Mae oedi yn parhau i fod ar gyfer pobl a all hunan-gyfeirio eu gofal eu hunain ac sy'n dymuno addasu eu cartref ond sy'n gorfod aros am asesiad gofal cymdeithasol gan y gwasanaeth therapi galwedigaethol.
- Mae pryder y gall oedi wrth ddarparu addasiadau fod yn gostwng manteision addasiadau fel ymyrraeth ataliol, er enghraifft gan effeithio ar eu hadferiad neu adsefydlu.
- Gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol, mae gweithwyr cymorth, cymhorthwyr therapi galwedigaethol ac aseswyr dibynadwy mewn llawer o ardaloedd yn cynnal asesiadau ar gyfer addasiadau cawod, offer cymunedol, technoleg gynorthwyol, lifftiau grisiau a rampiau lle mae'r sefyllfa yn syml.
- Mewn rhai ardaloedd caiff sgiliau, gwybodaeth a phrofiad therapyddion galwedigaethol eu defnyddio ar lefel strategol i ddatblygu polisïau, arweiniad dylunio, offer brysbennu a hyfforddiant i sicrhau y defnyddir y lefel gywir o gyfuniad asesiadau a'u sgiliau i wneud y defnydd gorau o stoc tai lleol ar gyfer preswylwyr presennol/darpar breswylwyr, darparu addasiadau pwrpasol, gwella ansawdd yr amgylchedd cartref a gostwng oedi.

## Beth sy'n cyfyngu darparu addasiadau heb oedi?

### WYDDECH CHI

Canfu'r adolygiad fod rhwystrau i ddarparu addasiadau yn cynnwys:

1. Camddehongli deddfwriaeth yn ymwneud â chyllido addasiadau.
2. Diffyg ymchwil a chanllawiau arfer gorau seiliedig ar dystiolaeth ar rôl therapyddion galwedigaethol yn y broses addasu cartrefi.
3. Y dybiaeth os yw addasiad yn un 'mawr' ei fod yn gymhleth, a bod yn rhaid iddo gynnwys therapydd galwedigaethol.

Ar y lefelau strategol, gweithredol ac ymarferydd, canfu'r adolygiad fod rhanddeiliaid eisiau mynd i'r afael â'r oedi wrth ddarparu addasiadau, ond fe wnaethant hefyd ddynodi rhwystrau i newid. Y tri phrif rwystr oedd:

1. Bod camddehongliad o ddeddfwriaeth (yn cyfeirio at gymhwyster ar gyfer cyllido addasiadau) wedi arwain at y dybiaeth y dylai cais am waith addasu mawr gael ei wneud gydag asesiad ac argymhelliad gan therapydd galwedigaethol.

2. Bod diffyg canllawiau wedi'u cyhoeddi yn atal timau rhag bod eisiau darparu ystod ehangach o addasiadau, heb ymgyfraniad uniongyrchol therapydd galwedigaethol, rhag datblygu'r polisïau a gweithdrefnau a fyddai'n helpu gyda rheoli risg y newid hwn.
3. Bod caniatáu cost a math gwaith addasu i ddiffinio cymhlethdod achos yn atal therapyddion galwedigaethol rhag canolbwyntio eu sgiliau arbenigol ar weithio gydag unigolion gyda'r amgylchiadau mwyaf cymhleth a lle byddant yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd a llesiant yr unigolyn.

I ostwng oedi a achosir gan y rhwystrau a ddynodwyd gan randdeiliaid, roedd yn amlwg fod angen math newydd o ganllawiau yn lle *Mân addasiadau heb oedi*. Gan symud i ffwrdd o restr wedi'i rhagnodi o arweiniad ar addasiadau a materion technegol, mae'r canllaw yn cyflwyno fframwaith i gefnogi darparu addasiadau heb oedi.

Mae'r fframwaith yn diffinio addasiadau yn seiliedig ar gymhlethdod y sefyllfa a'r math o newidiadau strwythurol i'r cartref. Yn seiliedig ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar y person, mae'r fframwaith yn dynodi gwahanol lefelau o ymyrraeth, a pha anghenion iechyd a gofal cymdeithasol all gael eu diwallu drwy gael addasiadau i'r cartref. Mae hefyd ganllawiau ar ystyriaethau gweithlu a gweithredol sydd eu hangen ar gyfer y gwahanol lefelau o ymyrraeth.

# 3 *Addasiadau heb oedi*: fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau

**DECHRAU ARNI: Yr hyn sydd angen i chi wybod**

- Mae'r fframwaith yn disgrifio tair lefel o ymyraethau addasiadau cartref: cyffredinol, wedi'u targedu, arbenigol.
- Mae disgrifiad o'r deilliannau canolbwyntio-ar-y-person a ddisgwylir ar bob lefel o ymyrraeth.
- Mae lefel (neu math) yr ymyrraeth yn seiliedig ar anghenion gofal a chymorth y person a'r math posibl o ddatrysiad sydd ei angen.
- Mae'r fframwaith yn cynnwys tri thabl yn disgrifio natur cymhlethdod pob lefel o ymyrraeth ac yn dynodi'r gofynion gweithlu a gweithredol i gyflwyno'r lefel honno o ymyrraeth.

Mae'r Balanced System® dylanwadol ac a gydnabyddir yn eang o wella gwasanaeth gofal integredig ar gyfer plant a'r Model Cynhwysfawr ar gyfer Gofal Personol wedi dylanwadu ar ddyluniad y fframwaith. Mae'r ddau fodel yma'n cysylltu deilliannau sy'n canolbwyntio ar y person gyda'r lefel o ymyrraeth gorau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal y person. Mae defnyddio'r dull gweithredu hwn yn sicrhau fod pobl yn derbyn lefel gymesur o asesiad ac ymateb i'w hanghenion tra'n gostwng oedi diangen yn ogystal â galw am ymarferwyr a gwasanaethau arbenigol.

I oresgyn y rhwystr fod angen i therapyddion galwedigaethol ymwneud ag asesu pob gwaith addasu mawr oherwydd y cafodd addasiadau mawr yn nodweddiadol eu diffino fel rhai cymhleth, mae fframwaith *Addasiadau heb oedi* yn defnyddio diffiniad o addasiadau sy'n ystyried y mathau o ddatrysiadau ynghyd â chymhlethdod y sefyllfa mewn pedwar maes allweddol:

1. Y person, eu blaenoriaethau a'u hanghenion.
2. Natur y gweithgareddau mae'r person yn cael anhawster eu cyflawni.
3. Y rhwystrau amgylcheddol i annibyniaeth (corfforol, cymdeithasol ac yn y blaen).
4. Y mathau o ddatrysiadau sydd eu hangen.

6 Gweler *www.thebalancedsystem.org*.
7 [NHS England] [2018] *Comprehensive model of personalised care*. [Llundain]: [NHS England.] Ar gael yn: *https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/02/comprehensive-model-of-personalised-care.pdf* Cyrchwyd ar 12.03.19.
8 Ainsworth E, de Jonge D (2018) Minor modifications: it's not as simple as 'do it yourself' (DIY). Yn: E Ainsworth, D de Jonge, gol. *An occupational therapist's guide to home modification practice*. 2il rifyn. Thorofare, NJ: SLACK. 381–388.

Mae'r dull hwn o ddiffinio addasiadau yn cydnabod y gall canllaw cydio syml fod yn ddatrysiad i sefyllfa gymhleth. Ar y llaw arall, gall addasiad cawod fod yn ddatrysiad i broblem syml. Yn y sefyllfa gyntaf, mae'r person yn manteisio o sgiliau asesu y therapydd galwedigaethol fydd yn ystyried amrywiaeth o ffactorau eraill a all effeithio ar ddiogelwch a llesiant yr unigolyn a'u sefyllfa. Yn yr ail sefyllfa, mae'r person yn manteisio o sgiliau dylunio a gosod swyddog technegol ac adeiladwr.

Caiff y pedwar math o addasiad eu disgrifio yn Nhabl 1.


**Tabl 1** Categorïau o addasiadau (addaswyd o'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaeth addasu cartref)[9]

| Math o addasiad | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. Sefyllfa syml sydd angen addasiad syml neu ddatrysiad parod i fynd/manwerthu sydd ar gael yn rhwydd | Nid yw gosod y math yma o addasiad angen fawr iawn o ymyrraeth gyda strwythur neu ffabrig y cartref a/neu mae'n ddatrysiad parod i fynd/manwerthu sydd ar gael yn rhwydd |
| 2. Strwythur syml sydd angen datrysiad strwythurol safonol. | Mae gosod y math yma o addasiad yn effeithio ar un neu ddwy agwedd o amgylchedd y cartref yn cynnwys newidiadau strwythurol ond heb fawr iawn ddim ymyrraeth. Gall yr addasiadau olygu ailgyflunio y gofod, ond gellir cyflawni hyn drwy newidiadau adeiladu safonol neu dechnegau gosod. |
| 3. Sefyllfa gymhleth sydd angen datrysiad heb fod yn strwythurol. | Mae gan berson un neu fwy o feysydd angen allweddol cymhleth (gweler uchod) sy'n ei gwneud yn ofynnol addasu'r datrysiad anstrwythurol ar gyfer y person. |
| 4. Sefyllfa gymhleth sydd angen datrysiad strwythurol arbenigol | Mae gan berson un neu fwy o feysydd angen allweddol cymhleth (gweler uchod) sydd angen datrysiad strwythurol arbenigol. Mae'r math yma o addasiad yn golygu fod angen newidiadau strwythurol sylweddol i amgylchedd y cartref. Bydd y datrysiad yn golygu ailgynllunio y cynllun gofodol a/neu osod gosodion a ffitiadau arbenigol, megis baddonau y gellir addasu eu huchder. |

9 Ainsworth E, de Jonge D (2018) Minor modifications: it's not as simple as 'do it yourself' (DIY). Yn: E Ainsworth, D de Jonge, gol. *An occupational therapist's guide to home modification practice*. 2il rifyn. Thorofare, NJ: Slack. 381–388.

## Fframwaith *Addasiadau heb oedi*: trosolwg

Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith, yn darlunio'r cysylltiad rhwng cymhlethdod yr angen iechyd a gofal a'r math o ymyrraeth sy'n mynd i'r afael orau â'r deilliant sy'n canoli ar y person. Caiff y lefelau ymyrraeth eu rhannu yn fathau cyffredinol, targedig ac arbenigol o ddatrysiad. Nid yw anghenion iechyd a gofal person yn sefydlog a byddant yn newid dros gyfnod; oherwydd hyn, mae'n bwysig y caiff hyn ei ystyried bob tro mae person yn cysylltu â gwasanaeth i gael cymorth.




**Ffigur 1** Fframwaith *Addasiadau heb oedi*

## Diben y fframwaith

Mae'r fframwaith yn rhoi canllaw holistig i asesu a darparu addasiadau sy'n cefnogi cymryd risg cadarnhaol ar gyfer rhai sy'n dymuno ymchwilio gwahanol ffyrdd o weithio. Mae'n osgoi defnydd anghymesur o wasanaethau therapi galwedigaethol arbenigol ac yn cynnig diffiniad o addasiadau sy'n canolbwyntio ar y deilliannau ar gyfer y person, yn hytrach na'r dull cyllido ar gyfer y math o ddatrysiad sy'n cael ei osod.

Mae'r fframwaith yn cymryd dull canolbwyntio ar y person sy'n sicrhau fod lefel yr ymyrraeth yn gymesur i anghenion tai, iechyd a gofal cymdeithasol y person. Mae'r fframwaith yn:

- Amlinellu'r amgylchiadau pan fo'r anghenion a'r datrysiad yn syml ac efallai nad oes angen mewnbwn uniongyrchol gan therapydd galwedigaethol.
- Rhoi gwell dealltwriaeth o rôl therapyddion galwedigaethol wrth asesu, argymell a dylunio addasiadau, yn seiliedig ar gymhlethdod y sefyllfa, yn hytrach na'r math o addasiad neu gost hynny.
- Amlinellu'r lefel briodol o sgiliau gweithlu a llywodraethiant sydd eu hangen i ateb y galw a gwella darpariaeth ystod estynedig o addasiadau.

## Defnyddio'r fframwaith i gefnogi penderfyniadau am lefel yr ymyrraeth sydd ei angen

Mae'r adran yma'n esbonio sut y gellir defnyddio'r fframwaith a amlinellir yn y tablau dilynol i ddeall y gwahaniaeth mewn cymhlethdod rhwng mathau ymyrraeth *cyffredinol, targedig* ac *arbenigol*, sgiliau'r gweithlu a'r materion gweithredol a llywodraethiant sydd angen eu trin ar bob lefel.

Mae mathau **cyffredinol** o ymyrraeth a gwasanaethau yn galluogi pobl gyda lefelau isel o anghenion i wneud penderfyniadau gwybodus am sut i gadw'n iach drwy ddarparu addasiadau cartref mewn modd amserol. Mae'r datrysiad yn syml a gellir eu cyfeirio nhw neu eu gofalwyr at opsiynau manwerthu a/neu eu cefnogi i osod addasiadau syml.

> Mae Rita yn ei chael yn anodd eistedd ar y toiled a chodi wedyn. Mae'n cysylltu â'r tasgmon lleol i drafod ei hanawsterau a gwneir trefniadau i osod canllaw cydio wrth ymyl y toiled.

Mae mathau **targedig** o ymyrraeth a gwasanaethau yn galluogi pobl hŷn neu anabl gyda chyflyrau iechyd hirdymor i gadw eu hurddas personol, gostwng risgiau a byw'n iach yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu addasiadau yn amserol. Mae sefyllfa'r person yn syml ond mae angen cymorth i ddynodi'r datrysiadau mwyaf addas. Gallai'r datrysiad fod yn un cyffredinol, ond mae'n debygol o fod yn addasiad heb fod yn strwythurol neu ddatrysiad strwythurol safonol

> Roedd Robert wedi cael offer ymolchi nifer o flynyddoedd yn ôl, ond mae'n ei chael yn anodd defnyddio'r offer. Mae aelod o Asiantaeth Gwella Cartrefi yn ymweld ag ef yn ei gartref. Drwy drafodaeth gyda Robert ac asesiad o'i anawsterau, dynodir y byddai gosod ystafell wlyb yn ei helpu i barhau'n annibynnol gyda'i drefn gofal personol.

Mae mathau **arbenigol** o ymyraethau a gwasanaethau yn grymuso pobl gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth i gynnal eu hurddas personol, a gostwng anghenion iechyd a gofal gwasanaeth cymdeithasol nas cynlluniwyd drwy ddarparu addasiadau cartref yn amserol. Oherwydd cymhlethdod y sefyllfa mae'n debygol mai'r datrysiad fydd addasiad anstrwythurol personol neu addasiad strwythurol arbenigol

Mae sglerosis ymledol gan Helen ac mae'n ei chael yn anodd gwneud amrywiaeth o weithgareddau byw bob dydd. Mae ei galluoedd yn newid o ddydd i ddydd. Mae eisiau cyngor ar sut i wneud newidiadau i'w chartref fel y gall gadw ei hurddas, llesiant ac annibyniaeth personol. Mae therapydd galwedigaethol yn ymweld â Helen yn ei chartref. Mae'r therapydd galwedigaethol yn gweithio gyda Helen yn amgylchedd y cartref ac yn dynodi'r rhwystrau yn y cartref sy'n effeithio ar Helen. Fel rhan o ddeall pa fath o addasiadau y bydd Helen eu hangen, mae'r therapydd galwedigaethol yn trefnu iddi ymweld â'r ganolfan arddangos. Yn y ganolfan arddangos gall Helen roi cynnig ar wahanol gynnyrch ac edrych ar opsiynau ar gyfer addasu ei chartref. Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r asesiad ac ymweld â'r ganolfan arddangos, mae'r therapydd galwedigaethol yn ymweld â Helen yn ei chartref gyda swyddog technegol o dîm tai yr awdurdod lleol, sy'n awgrymu nifer o ddatrysiadau posibl. Mae'r therapydd galwedigaethol yn gweithio gyda Helen i gytuno ar y datrysiad hirdymor gorau a, gyda'r wybodaeth hon, gwneir cais am gyllid.

Mae'r tablau dilynol ar gyfer pob lefel o ymyrraeth yn rhoi gwybodaeth fanwl am ffactorau sy'n cyfrannu at gymhlethdod ar y lefel honno. Mae pob tabl yn nodi'r sgiliau staff a ffactorau gweithredol sydd angen eu hystyried i ddarparu pob lefel o ymyrraeth i sicrhau'r canlyniadau personol gorau.

## DYSGU ALLWEDDOL: Manteision defnyddio fframwaith *Addasiadau heb oedi*

Mae'r fframwaith yn rhoi strwythur ar gyfer ystyried sut y gellir gwella ymarfer cyfredol neu ddylunio gwasanaeth y dyfodol i sicrhau addasiadau heb oedi drwy:

- Darparu ymateb mwy cymesur yn seiliedig ar lefel angen a chymhlethdod sefyllfa'r person a'r math o ddatrysiad sydd ei angen.
- Sefydlu gweithlu gyda'r cyfuniad sgiliau priodol.
- Gweithredu fel canllaw i fanwerthwyr a gwneuthurwyr cynnyrch am pryd y gall aelodau o'r cyhoedd fod angen lefel ymyrraeth mwy targedig neu arbenigol.
- Helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall lefel yr ymyrraeth neu'r math o wasanaeth maent ei angen i addasu eu cartref.

## *Addasiadau heb oedi*: lefel CYFFREDINOL o ymyrraeth

### NATUR CYMHLETHDOD

**Cyflwr iechyd yn:**

- Rhagweladwy
- Sefydlog
- Dim gwaethygiad diweddar mewn iechyd na llesiant.

**Mae'r angen yn gysylltiedig â:**

- Gostwng neu atal risg.
- Galluogi person i gyflawni gweithgareddau sylfaenol bywyd bob dydd
- Gall y person a/neu deulu gyfathrebu a gwneud penderfyniadau am eu hanghenion a'r datrysiad.

**Cymhlethdod yr addasiadau a ddisgwylir**

- Gall person a/neu deulu gyfathrebu a gwneud penderfyniadau am y math o ddatrysiad sydd ei angen
- Mae'r addasiad(au) a osodir yn ddatrysiad parod ac nid oes angen arbenigo i ddiwallu angen y person
- Rhagwelir y bydd y datrysiad yn syml a greddfol i'w ddefnyddio ac na fydd angen unrhyw hyfforddiant neu gymorth arbenigol i'w ddefnyddio.
- Ni fydd y person angen dim neu fawr iawn o gymorth i ddefnyddio'r addasiad(au).

### SGILIAU GWEITHLU

**Staff gyda:**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae cyflyrau iechyd a'r prosesau heneiddio/datblygu yn effeithio ar berfformio gweithgareddau bob dydd syml.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i drefnu gosod amrywiaeth o addasiadau parod i fynd sy'n gostwng/atal risg neu'n galluogi person i gyflawni gweithgareddau sylfaenol byw bob dydd.
- Gallu i gyfeirio mewn modd priodol at wasanaethau lleol yn cynnwys manwerthu a gwasanaethau tasgmon a all gynorthwyo i osod addasiadau parod syml.
- Dealltwriaeth o'r amgylchiadau pan mae person angen mewnbwn **targedig** neu **arbenigol** yn cynnwys pryd mae'n briodol i ymgynghori â therapydd galwedigaethol.

### YSTYRIAETHAU GWEITHREDOL

**Cyrchu gwasanaeth**

- Dull brysbennu cyswllt cyntaf i ddynodi os yw'n achos targedig.

**Darpariaeth gwasanaeth**

- Polisïau, gweithdrefnau a system a gytunwyd ar gyfer addasiadau a ddarperir heb asesiad therapi galwedigaethol.
- Cytuno ar feini prawf ar gyfer pryd i gyfeirio at wasanaethau targedig neu arbenigol neu pryd i ymgynghori gyda therapydd galwedigaethol.
- Cytuno ar lefelau hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer staff heb fod yn staff therapi galwedigaethol fydd yn hwyluso'r broses.
- Cytuno ar ganllawiau arfer gorau i osod cynnyrch parod i fynd.
- Prosesau syml a thryloyw ar gyfer caffael a gosod addasiadau.
- Cytundebau partneriaeth rhwng asiantaethau gofal cymdeithasol, iechyd a thai, cymdeithasau tai, asiantaethau gwella cartrefi ac asiantaethau gofal a thrwsio yn ymwneud â darparu addasiadau.
- Prosesau adolygu effeithlon yn dilyn gosod yr addasiad.

## *Addasiadau heb oedi*: lefel ymyrraeth TARGEDIG

### NATUR CYMHLETHDOD

**Cyflwr iechyd yn:**

- Rhagweladwy
- Sefydlog
- Dim gwaethygiad diweddar mewn iechyd na llesiant.

**Mae'r angen yn gysylltiedig â:**

- Gostwng neu atal risg.
- Galluogi person i gyflawni gweithgareddau sylfaenol bywyd bob dydd.
- Gallu y person a/neu deulu i gyfathrebu a gwneud penderfyniadau am eu hanghenion a'r datrysiad.
- Mae angen ymweliad i ddynodi datrysiad.

**Cymhlethdod yr addasiadau a ddisgwylir**

- Gall person a/neu deulu gyfathrebu a gwneud penderfyniadau am y math o ddatrysiad sydd ei angen
- Mae'r addasiad(au) a osodir yn syml ac ar gael yn rhwydd, ac os yn ddatrysiad strwythurol (e.e. addasu ystafell ymolchi) nid oes angen ei arbenigo i ddiwallu angen y person.
- Rhagwelir y bydd y datrysiad yn syml a greddfol i'w ddefnyddio ac na fydd angen unrhyw hyfforddiant neu gymorth arbenigol i'w ddefnyddio.
- Ni fydd y person angen dim neu fawr iawn o gymorth i ddefnyddio'r addasiad(au).

### SGILIAU GWEITHLU

**Staff gyda:**

- Gallu i gymryd dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person i ddynodi blaenoriaethau, anghenion a dewisiadau.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae cyflyrau iechyd a'r prosesau heneiddio/datblygu yn effeithio ar berfformio gweithgareddau bob dydd syml.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i adnabod peryglon a rhwystrau i annibyniaeth o fewn yr amgylchedd cartref.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i adnabod ac argymell amrywiaeth o addasiadau parod i fynd ac addasiadau strwythurol safonol (e.e. lifftiau grisiau/addasiadau cawod) sy'n gostwng/atal risg neu sy'n galluogi person i gyflawni gweithgareddau sylfaenol bywyd bob dydd.
- Gallu i ddethol a defnyddio dogfennau priodol i gaffael addasiadau priodol i anghenion a ddynodwyd.
- Dealltwriaeth o pryd mae cymhlethdod y sefyllfa'n golygu fod angen mewnbwn **arbenigol** a phryd yr ystyrir ei bod yn briodol ymgynghori â therapydd galwedigaethol.

### YSTYRIAETHAU GWEITHREDOL

**Cyrchu gwasanaeth**

- Dull brysbennu cyswllt cyntaf i ddynodi os yw'n achos targedig

**Darpariaeth gwasanaeth**

- Meini prawf a gytunwyd ar gyfer dirprwyo.
- Polisïau, gweithdrefnau a system a gytunwyd ar gyfer addasiadau a ddarperir heb asesiad therapi galwedigaethol.
- Cytuno ar feini prawf ar gyfer pryd i atgyfeirio at wasanaethau targedig neu arbenigol neu pryd i ymgynghori gyda therapydd galwedigaethol.
- Cytuno ar lefelau hyfforddiant a chymhwysedd ar gyfer staff heb fod yn staff therapi galwedigaethol fydd yn cynnal ymweliadau cartref.
- Dulliau i gefnogi cyfathrebu effeithlon.
- Safonau dylunio ac arfer gorau gosod a gytunwyd ar gyfer addasiadau strwythurol safonol.
- Cytuno ar ganllawiau arfer gorau ar gyfer gosod cynnyrch parod i fynd.
- Cytundebau partneriaeth rhwng asiantaethau gofal cymdeithasol, iechyd a thai, cymdeithasau tai, asiantaethau gwella cartrefi ac asiantaethau gofal a thrwsio yn ymwneud â darparu addasiadau.
- Prosesau caffael syml a thryloyw.
- Prosesau adolygu effeithlon yn dilyn gosod yr addasiad.

## *Addasiadau heb oedi*: lefel ymyrraeth ARBENIGOL

### NATUR CYMHLETHDOD

**Cyflwr iechyd yn:**
- Ni fedrir ei ragweld.
- Newidiol/amrywiol.
- Yn cynnwys amhariad gwybyddol.
- Wedi'i gyfuno gyda namau corfforol/synhwyraidd/gwybyddol.
- Cysylltiedig gyda bod yn niwro-amrywiol.

**Angen yn gysylltiedig gyda:**
- Anghenion yn newid dros gyfnod (plentyn i oedolyn).
- Gostwng neu atal risg.
- Newid sydyn mewn iechyd, annibyniaeth a/neu ddiogelwch yn effeithio ar hunaniaeth a rolau'r person a/neu'r gofalwr.
- Dynodi materion diogelu.
- Anghenion eiriolaeth yn ystod y broses asesu.
- Angen eiriolaeth i wneud penderfyniadau am ddyluniad y gwaith addasu.
- Gofalwyr yn defnyddio addasiadau fel rhan o becyn gofal.

**Cymhlethdod addasiadau a ddisgwylir**
- Angen addasiadau mewn nifer o rannau cartref.
- Bydd angen i'r addasiad ddarparu ar gyfer defnydd offer arbenigol.
- Gallai gosod addasiadau gael effaith sylweddol ar aelodau eraill yr aelwyd.
- Mae'r datrysiad heb fod yn strwythurol neu'n ddatrysiad strwythurol arbenigol ac angen ymgyfraniad therapi galwedigaethol a hefyd dechnegol.

### SGILIAU GWEITHLU

**Staff gyda:**
- Gallu i gymryd dull sy'n canolbwyntio ar y person i ddynodi blaenoriaethau, anghenion a dewisiadau.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae cyflyrau iechyd a'r prosesau heneiddio/datblygu yn effeithio ar gyflawni gweithgareddau syml bob dydd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddynodi ac argymell amrywiaeth o addasiadau parod i fynd ac addasiadau strwythurol safonol (e.e. lifftiau grisiau/addasiadau cawod) sy'n gostwng/atal risg neu'n galluogi person i gyflawni gweithgareddau sylfaenol byw bob dydd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddewis amrywiaeth o ymyrraethau, yn cynnwys ailalluogi, addasu gweithgaredd, cadwraeth ynni, symud, codi a chario, cyngor a chymorth i deuluoedd a gofalwyr.
- Gallu i gyfathrebu'n effeithlon fanylion addasiadau pwrpasol a chydlynu gyda swyddogion technegol i ganfod y datrysiadau gorau priodol i anghenion.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o pryd nad oes angen asesiad arbenigol therapi galwedigaethol a'i bod yn briodol i ddirprwyo asesiad i fewnbwn wedi'i dargedu neu gyffredinol.

### YSTYRIAETHAU GWEITHREDOL

**Cyrchu gwasanaeth**
- Dull brysbennu effeithlon i ddynodi cymhlethdod sefyllfa.
- Ystyried mynediad i ddatrysiadau tymor byr (h.y. offer) tra caiff datrysiadau tymor hirach eu hystyried.

**Darpariaeth gwasanaeth**
- Proses sy'n canolbwyntio ar y person yn dod ynghyd ag asesu, dylunio, caffaeliad a gosod datrysiadau strwythurol arbenigol cymhleth.
- Timau integredig a/neu drefniadau cydweithio rhwng therapi galwedigaethol ac arbenigedd technegol tai.
- Rolau wedi eu dirprwyo'n glir yng nghyswllt y broses addasu a phwy sy'n ystyried gofynion dylunio, ysgrifennu manylebion technegol, dylunio datrysiadau technegol a chefnogi caffaeliad yr addasiad.
- Prosesau caffael effeithlon ac effeithiol.
- Prosesau adolygu effeithlon ar ôl gosod yr addasiad.

# 4 Sut i ddefnyddio fframwaith *Addasiadau heb oedi* yn ymarferol i wella darpariaeth addasiadau

## Cyflwyniad

Mae darparu addasiadau cartref yn llwyddiannus yn dibynnu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio orau ar gyfer y person a'u sefyllfa. Yn ymarferol, mae pobl angen cyngor amserol am yr hyn y gallent fod ei angen, sut y gallant ei gael a phwy all eu helpu. Mae'r adran yn ystyried sut y gellir defnyddio fframwaith *Addasiadau heb oedi* i gyflawni'r uchod.

### Yn yr adran hon byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio'r fframwaith:

- Darparu ymateb cymesur
- Cefnogi datblygu gweithlu gyda gwybodaeth a sgiliau priodol
- Os ydych yn adeiladwr, manwerthwr neu wneuthurydd cynnyrch ac eisiau canllaw ar pryd y gall person fod angen lefel ymyrraeth mwy targedig neu arbenigol.
- Os ydych yn aelod o'r cyhoedd ac eisiau deall lefel yr ymyrraeth neu fath o wasanaeth rydych ei angen i addasu eich cartref.

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith i ddarparu ymateb cymesur

### Neges allweddol ar gyfer cyflawni ymateb cymesur

Mae cael yr ymateb cywir ar y pwynt cyswllt cyntaf, a gaiff ei ddilyn gan gyfeirio pobl at y math cywir o wasanaeth (cyffredinol, targedig, arbenigol) yn gostwng oedi a'r tebygrwydd fod pobl ar restri aros am asesiadau nad ydynt eu hangen.

**Cyfeirio ar y pwynt cyswllt cyntaf:** Mae dynodi a chyfeirio pobl at y math o ymyrraeth/gwasanaeth maent ei angen ar y pwynt cyswllt cyntaf yn gostwng oedi. Gellir defnyddio'r ***colofnau natur cymhlethdod*** yn y tablau ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) i gefnogi datblygu dulliau i ddynodi'r math o ymyrraeth mae person ei angen (yn seiliedig ar gyflwr iechyd y person, natur yr angen a chymhlethdod yr addasiad disgwyliedig).

**Cyfathrebu lefel y ddarpariaeth gwasanaeth:** Gellir atal oedi pan gaiff pobl eu cyfeirio at wasanaeth a all gyflawni eu hanghenion yn y ffordd orau. Gall gwasanaethau (yn cynnwys y sector manwerthu) ddefnyddio ***trosolwg o'r fframwaith*** a'r ***pedwar categori o addasiadau*** (Adran 3, Tabl 1) i feincnodi lefel yr ymyrraeth/gwasanaeth a ddarparant ar hyn o bryd. Gellir wedyn ddefnyddio'r wybodaeth i gyfathrebu pa lefel ymyrraeth y gall gwasanaeth ei ddarparu.

**Cefnogi datblygu neu ailgynllunio gwasanaeth:** Gall gwasanaethau gynyddu ystod yr addasiadau a ddarparant heb asesiad therapi galwedigaethol os ydynt yn mynd i'r afael â'r materion sgiliau/gwybodaeth gweithlu a gweithredol sy'n codi pan nad yw therapydd galwedigaethol yn ymwneud yn uniongyrchol yn y broses. Gall ***colofn sgiliau gweithlu ac ystyriaethau gweithredol*** pob lefel ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) weithredu fel cwestiynau archwilio i ddynodi'r bylchau a materion hyn, gan helpu i gefnogi datblygu neu ailgynllunio gwasanaeth.

**Cynllunio strategol a throsolwg o wasanaethau addasu:** Argymhelliad allweddol o adroddiadau ar ddarparu addasiadau yw'r angen i wella cynllunio strategol gwasanaethau sy'n darparu addasiadau. Gellir defnyddio ***trosolwg y fframwaith*** i fapio a deall dulliau asesu a darpariaeth cyfredol mewn ardal. Mae'r wybodaeth hon yn dynodi bylchau mewn darpariaeth, lle gellir sicrhau gwelliant mewn llwybrau i gael mynediad i addasiadau a chyfleoedd ar gyfer gweithio integredig neu gydlynu gwasanaethau.

Ar draws y Deyrnas Unedig mae ystod o fforymau traws-sector yn bodoli i alluogi gwelliant parhaus mewn darpariaeth addasiadau. Yng Nghymru caiff y gwaith hwn ei wneud gan y Grŵp Llywio Addasiadau Tai; yng Ngogledd Iwerddon gan y Grŵp Llywio Addasiadau ar y Cyd; ar draws Lloegr mae'r Consortiwm Addasiadau Tai yn hyrwyddo ansawdd darpariaeth; yn yr Alban mae'r Grŵp Tai Hygyrch, sy'n is-grŵp o Gyd Grŵp Cynllunio Darpariaeth Tai Llywodraeth yr Alban yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid ac mae ganddo rôl wrth gyfrannu at ddatblygiad polisi, yn cynnwys ar addasiadau. Mae Rhwydwaith Tai yr Alban yn sefydliad aelodaeth sy'n cynnal fforwm yn canolbwyntio ar addasiadau ac yn bennaf yn cynnwys nifer o awdurdodau lleol a rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (caiff Llywodraeth yr Alban wahoddiad i fynychu).

## Enghraifft: Cynllunio strategol – sefydlu timau cymorth tai integredig

**Sefydliad:** The Lightbulb Project

**Lleoliad:** Swydd Caerlŷr/Leicestershire

**Gwasanaethau:** Timau ardal cymorth tai ym mhob ardal cyngor dosbarth. Dull rhagweithiol targedig yn cynnwys drwy feddygon teulu a swyddogion iechyd/gofal eraill megis y rhai mewn timau ardal integredig.

- Asesiad a brysbennu cynnar ar faterion tai ar bwyntiau mynediad allweddol.
- Model both-ac-adenydd - timau ardal integredig yn darparu addasiadau mân a mawr, a chymorth, cyngor a gwybodaeth cysylltiedig â thai

**Cyfuniad sgiliau:**

- Cydlynwyr Cymorth Tai a Swyddog Technegol.

- Therapyddion galwedigaethol yn parhau yng nghyflogaeth Cyngor Swydd Caerlŷr/Leicestershire.

**Dull/proses:**

- Therapyddion galwedigaethol yn asesu ac argymell addasiadau mawr cymhleth a mentora/cefnogi Cydlynwyr Cymorth Tai (sydd hefyd yn aseswyr dibynadwy) i gwblhau gwaith llai cymhleth.
- Arbenigwyr tai mewn tîm Ail-alluogi Ysbyty ar wahân yn dynodi rhwystrau cysylltiedig â thai i ryddhau o ysbyty.

**Effaith a deilliannau:**

- Costau darparu, yn cynnwys tîm Tai Ysbyty tua £1 miliwn y flwyddyn o gymharu â photensial arbediad o £2 miliwn y flwyddyn i iechyd a gofal cymdeithasol, llai o dderbyniadau/oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Arbedion arfaethedig ar gostau darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl drwy brosesau mwy effeithiol ac arbedion staffio.

**Mwy o wybodaeth:**

*https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/The-Lightbulb-Project-Switched-on-to-integration-in-Leicestershire*

## Enghraifft: Darpariaeth gwasanaeth integredig

**Sefydliad:** Gwasanaeth Addasu Ymateb Cyflym Gofal a Thrwsio

**Lleoliad:** Cymru gyfan drwy 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio, Care & Repair Cymru a phartneriaid mewn gwasanaethau statudol – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai.

**Gwasanaethau:**

- Ymatebion bach cyflym iawn, ymatebol yn costio hyd at £350.
- Dim prawf modd ac ar gael i bob perchennog cartref a thenantiaid preifat 60+ oed.

**Cyfuniad sgiliau:**

- Gweithwyr achos Gofal a Thrwsio, swyddogion technegol a thasgmyn.
- Gweithwyr achos Gofal a Thrwsio seiliedig mewn ysbyty.

**Dull/proses:**

- Derbynnir atgyfeiriadau o ofal cymdeithasol, tai, gweithwyr proffesiynol iechyd gofal sylfaenol ac eilaidd, yn ogystal â cheisiadau uniongyrchol gan gleientiaid a'u gofalwyr.

- Gall atgyfeiriadau fod yn seiliedig yn y gymuned neu mewn ysbyty, gan ddarparu datrysiadau cyflym sy'n atal cwympiadau, gostwng derbyniadau i ysbyty, cynorthwyo byw annibynnol neu gyflymu trosglwyddo gofal yn ddiogel a llif cleifion o fewn ysbytai.

**Effaith a deilliannau:**

- Cwblhau tua 18,000 o addasiadau ymateb cyflym yn flynyddol.
- Amserau darpariaeth yn amrywio o'r un diwrnod/ar unwaith i wyth diwrnod.
- Ymgysylltu cynnar rhwng staff ysbyty, cleifion a Gofal a Thrwsio ac ystyriaeth i anghenion tai wrth gynllunio rhyddhau o ysbyty, ynghyd â datrysiadau ymarferol ar unwaith drwy'r Rhaglen Addasiadau Cynnar yn gwella llif cleifion mewn ysbytai ac yn arbed dyddiau gwely.
- Partneriaethau Gofal a Thrwsio gyda therapyddion galwedigaethol, gofal cymdeithasol, iechyd a thai yn darparu addasiadau bach cyflymach mewn cymunedau, tu allan i brosesu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Amcangyfrifir fod pob £1 a werir ar y Rhaglen Addasiadau Cyflym yn arbed £7.50 i'r pwrs cyhoeddus.

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith i sefydlu gweithlu gyda'r cyfuniad sgiliau priodol

### Neges allweddol ar gyfer sefydlu gweithlu gyda'r cyfuniad sgiliau priodol

Mae'r fframwaith yma'n rhoi pobl hŷn ac anabl wrth ganol proses sy'n sicrhau eu bod yn derbyn y lefel gywir o asesiad gan weithlu sydd â'r lefel gywir o sgiliau a gwybodaeth i asesu ac argymell addasiadau.

**Datblygu dulliau ar gyfer dyrannu achosion:** Caiff oedi ei ostwng pan gaiff achosion eu dyrannu i'r gweithiwr/ymarferydd sydd â'r sgiliau priodol i drin yr achos i sicrhau'r canlyniad gorau yn canolbwyntio ar y person. Er enghraifft, os yw sefyllfa cyflwyno person yn gymharol syml, nid oes angen dyrannu therapydd galwedigaethol ar gyfer achos lle mai'r addasiad disgwyliedig yw datrysiad strwythurol safonol, megis addasu ystafell ymolchi neu lifft grisiau. Gellir defnyddio'r ***golofn sgiliau gweithlu*** yn y tablau ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) i gefnogi datblygu dulliau ar gyfer dyrannu achosion yn seiliedig ar y *sgiliau a gwybodaeth* sydd eu hangen i drin yr achos yn effeithlon.

**Datblygu polisïau a gweithdrefnau cadarn:** Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn yn sicrhau fod gweithwyr/ymarferwyr yn gweithio o fewn eu cwmpas ymarfer ac y cânt eu defnyddio mewn modd priodol i asesu a darparu addasiadau. Mae'r dull gweithredu hwn yn neilltuol o bwysig pan nad yw therapydd galwedigaethol yn ymwneud ag asesu ac argymell addasiadau. Mae'r ***golofn ystyriaethau gweithredol*** yn y tablau ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) yn dangos y polisïau a gweithdrefnau sydd angen eu datblygu a'u gweithredu ar bob lefel o ymyrraeth.

## Enghraifft: Sefydlu lefel cyfrifoldebau a gytunwyd ar gyfer gwneud argymhellion

**Sefydliad:** Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Bwrdeistref Brenhinol Greenwich

**Gwasanaethau:** Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

**Dull/proses:** Arweiniad ar gwmpas cyfrifoldeb ar gyfer Swyddogion Asesu Cynorthwyol Therapi Galwedigaethol.

- Amlinellu meini prawf ar gyfer pan mae angen atgyfeirio achosion yn ôl at therapydd galwedigaethol os yw'n ymddangos eu bod yn dod yn fwy cymhleth.
- Yng nghyswllt cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol RCOT yng nghyswllt dirprwyo.
- Yn unol â lefelau a gytunwyd o gymhwysedd proffesiynol a amlinellir yn Fframwaith Datblygu Gyrfa RCOT.
- Gall Swyddogion Asesu Cynorthwyol Therapi Galwedigaethol asesu ac argymell cawodydd mynediad gwastad syml, lifftiau grisiau, hanner stepiau, canllawiau llaw, rampiau, lledwyr drysau, tapiau codi, agorwyr ffenestri.

Mae ffactorau lle mae angen mewnbwn ac awdurdodiad therapi galwedigaethol yn cynnwys:

- Diogelu
- Symud, codi a chario
- Cleientiaid gyda chyflyrau cynyddol, niwrolegol a chymhleth.
- Holl achosion plant.
- Sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth.
- Anghenion offer arbenigol a phwrpasol.

**Effaith a deilliannau:**

- Gostwng galw ar asesiadau therapi galwedigaethol ar gyfer addasiadau mawr.
- Cefnogaeth ar gyfer staff heb eu rheoleiddio i asesu ac argymell addasiadau pan mae'r sefyllfa yn syml ac i wybod pryd mae angen iddynt geisio cyngor arbenigol.

**Datblygu a chynnal sgiliau a chymwyseddau gweithlu:** Dylid defnyddio'r ***golofn sgiliau gweithlu*** yn y tablau ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) i archwilio staff cyfredol ar gyfer y lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth i asesu ac argymell addasiadau ar gyfer pob lefel o ymyrraeth. Gellir darparu hyfforddiant priodol os dynodir bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau. Lle mae gwasanaeth yn bwriadu ymestyn yr ystod addasiadau a ddarparwyd heb asesiad therapi galwedigaethol, yna bydd y golofn sgiliau gweithlu yn dynodi'r sgiliau a gwybodaeth y bydd gweithiwr eu hangen i weithio'n ddiogel ac yn briodol.

### Enghraifft: Hyfforddiant gweithlu

**Sefydliad:** Housing Solutions Change Programme (yr Alban) (a ddatblygwyd gan ihub Healthcare Improvement Scotland)

**Gwasanaethau:** Hyfforddi ystod o staff sector a all ddod i gysylltiad gyda phobl yn eu cartrefi eu hunain, er enghraifft nyrsys, swyddogion tai, podiatregwyr, therapyddion galwedigaethol ac asiantaethau sector gwirfoddol.

**Cyfuniad sgiliau:** Yn cynnwys staff iechyd, tai, gofal cymdeithasol a thrydydd sector o fewn ardaloedd Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws yr Alban.

**Dull proses:** Modiwlau hyfforddiant yn cael eu darparu gan barau hyfforddiant lleol (therapydd galwedigaethol a chydweithiwr tai) gyda phwyslais ar ymyrraeth cynnar, datrysiadau syml, ymchwilio cyfleoedd ailgartrefu a deilliannau personol. Caiff partneriaeth a dull gweithredu integredig eu hyrwyddo i sicrhau gwell canlyniadau.

*Modiwl 1* yn hyrwyddo gwerth ‘sgyrsiau cynnar am gartrefi’ ar gyfer unrhyw weithwyr proffesiynol sy’n ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain i ddefnyddio cyfleoedd ar gyfer ymyrraethau ataliol.

*Modiwl 2* yn darparu sgiliau i amrediad o staff tai, iechyd a gofal cymdeithasol i asesu a chomisiynu addasiadau syml lle’n briodol.

*Modiwl 3* yn hyfforddi therapyddion galwedigaethol heb fod yn rhai gofal cymdeithasol i asesu ar gyfer a chomisiynu addasiadau mawr.

**Effaith a deilliannau:**

- Gall ystod ehangach o staff ymyrryd yn gynharach a galluogi blaengynllunio.
- Galluogi defnydd gwell o therapyddion galwedigaethol medrus.

**Datblygu cydweithredu ac ymarfer rhyng-broffesiynol ar gyfer achosion cymhleth:** Mae oedi’n digwydd lle mae cydweithredu aneffeithlon rhwng timau therapi galwedigaethol a thai. Lle nad yw timau therapi galwedigaethol a thai wedi integreiddio, gellir defnyddio’r fframwaith a chategorïau addasiadau i gefnogi ac annog arferion gwaith cydweithredol. Mae’r dull hwn yn neilltuol o bwysig ar gyfer achosion cymhleth lle mae cydweithredu a chyfathrebu rhyng-broffesiynol yn hanfodol wrth asesu a dylunio’r addasiadau. Lle mae integreiddio timau’n cael ei ystyried, mae’r fframwaith a’r tablau yn fan cychwyn i ystyried y cyfuniad sgiliau a’r materion gweithredol sydd angen eu trin i ddarparu ystod o ddatrysiadau i boblogaeth gydag anghenion amrywiol.

## Cyfleu’r neges: cyfathrebu effeithlon

Mae cyfathrebu effeithlon rhwng y staff sy’n cynnal asesiadau a’r staff technegol sy’n gyfrifol am ddylunio a gosod addasiadau yn hanfodol i sicrhau fod addasiadau a gwblhawyd yn addas i’r diben. Mae’n bwysig rhoi dulliau cyfathrebu i staff i’w gwneud mor rhwydd ag sydd modd cwblhau ceisiadau, gwneud argymhellion ac esbonio’r rhesymau dros ofynion allweddol.

Mewn llawer o ardaloedd ar draws y Deyrnas Unedig, caiff templedi safonol y gellir eu golygu'n rhwydd eu defnyddio ar gyfer addasiadau syml. Mae hyn yn sicrhau y caiff safonau da yng nghyswllt isafswm gofynion gofod, dimensiynau a chyfleusterau allweddol eu cynnwys bob amser a'u bod yn rhwydd i staff technegol eu deall.

## Enghraifft: Pecyn Cymorth Cyfathrebu Dylunio Addasiadau

**Sefydliad:** Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon

**Gwasanaethau:**

- Cyhoeddi pecyn cymorth (yn cynnwys rhestr o addasiadau y gellir eu gosod heb asesiad therapi galwedigaethol).
- Safonau dylunio seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu defnyddio i helpu pobl hŷn ac anabl i weld sut olwg fydd ar yr addasiad a gynigir.
- Ffurflenni digidol safonol ar gyfer gwneud cais am addasiadau.
- Fformatau digidol safonol ar gyfer manylu addasiadau.

**Dull/proses:**

- Cyhoeddi pecyn cymorth i ddangos dyluniadau addasiadau safonol i bobl hŷn ac anabl.
- Defnyddio ffurflenni electronig i anfon gwybodaeth rhwng therapyddion galwedigaethol a'r tîm tai.

**Effaith a deilliannau:**

- Gwella dealltwriaeth pobl hŷn ac anabl o ba addasiadau a gaiff eu gosod.
- Gwella gweithio a chyfathrebu rhwng asiantaethau.
- Lle gellir gosod datrysiad syml, mae hyn wedi gostwng yr angen ar gyfer ymweliadau ar y cyd.

**Gwybodaeth bellach:**

*https://m.nihe.gov.uk/adaptations_design_communications_toolkit.pdf*

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith os ydych yn adeiladwr, manwerthwr neu wneuthurydd cynnyrch

### Neges allweddol ar gyfer adeiladwyr, manwerthwyr neu wneuthurwyr cynnyrch

Mae gan adeiladwyr, manwerthwyr a gwneuthurwyr cynnyrch rôl cynyddol bwysig wrth asesu, argymell a gosod addasiadau ar gyfer pobl sy'n talu am eu haddasiadau eu hunain. I'r cyhoedd gael hyder yn y sector yma, mae'n bwysig bod adeiladwyr, manwerthwyr a gwneuthurwyr cynnyrch yn dangos eu bod yn gweithredu arferion diogel sy'n canolbwyntio ar y person.

**Gwybod pryd i ymgynghori gyda therapydd galwedigaethol:** Wrth asesu, argymell neu osod addasiadau mae'n bwysig fod gan adeiladwyr, manwerthwyr a gwneuthurwyr cynnyrch yr wybodaeth a sgiliau priodol i gyflwyno'r math yma o wasanaeth i bobl hŷn ac anabl. Bydd y ***fframwaith gyffredinol a'r tablau ymyrraeth*** (Tablau 2–4, Adran 3) yn helpu'r sector yma i ddeall pa lefel o ymyrraeth y gallant ei chyflwyno'n ddiogel ac yn effeithlon, a phryd y bydd angen iddynt ddefnyddio arbenigedd therapyddion galwedigaethol.

### Enghraifft: Cefnogi penderfyniadau ar pryd i gyfeirio ar gyfer asesiad therapydd galwedigaethol

**Rhestr wirio a ddefnyddir mewn Hyfforddiant Asesydd Dibynadwy**

**Dull/proses:** Rhoddir enghraifft o hyn yn holiadur hyfforddiant y Sefydliad Byw i'r Anabl:

**Sut fyddaf yn gwybod pryd i atgyfeirio at therapydd galwedigaethol?**

Gall fod yn anodd, yn arbennig pan fyddwch yn dechrau gweithio yn rôl Asesydd Dibynadwy, i wybod pryd y gallwch roi datrysiad diogel a phryd na fedrir gwneud hynny. Ffordd syml o benderfynu hyn yw gofyn y cwestiynau dilynol:

- A oes gan y cwsmer fwy na dau gyflwr sy'n effeithio ar eu gallu i gwblhau'r dasg dan sylw?
- A yw cyflwr y cwsmer yn newid yn sylweddol o ddydd i ddydd neu a yw eu cyflwr yn debygol o newid yn sylweddol o fewn y flwyddyn nesaf?
- A yw'r cwsmer yn brin o gapasiti i wneud penderfyniadau a/neu eu bod yn methu dilyn cyfarwyddiadau?
- A yw'r amgylchedd yn gymhleth ac anodd i'w addasu?
- A yw'r datrysiad tu allan i'r opsiynau safonol a syml sydd ar gael i chi?
- A yw'r person wedi colli'r gallu i symud o un sedd i un arall?
- A yw datrysiad Asesydd Dibynadwy yn effeithio ar iechyd, datblygiad neu annibyniaeth eraill o fewn yr amgylchedd?

- A oes meysydd eraill y mae'r cwsmer yn cael trafferth gyda nhw yn yr un amgylchedd na fyddai datrysiad Asesydd Dibynadwy yn ei ddatrys yn ddiogel?

Os mai'r ateb yw 'oes' neu 'ydi' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, yna dylech geisio help gan therapydd galwedigaethol.

**Gwybodaeth bellach:**

*https://www.dlf.org.uk*

**Cyfleoedd cydweithio gyda therapyddion galwedigaethol annibynnol:** Mae nifer cynyddol o bobl hŷn ac anabl sydd angen lefel dargedig neu arbenigol o ymyrraeth/gwasanaeth ond sy'n talu amdanynt eu hunain. Mae cyfle i therapyddion galwedigaethol annibynnol ac adeiladwyr proffesiynol gydweithio i ateb y galw yma. Gall y ***fframwaith cyffredinol, tablau ymyrraeth a chategorïau addasiadau*** (Tablau 2–4, Adran 3) roi sylfaen a strwythur i ddatblygu partneriaethau busnes rhwng therapyddion galwedigaethol annibynnol ac adeiladwyr sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth i'r boblogaeth yma o bobl hŷn ac anabl.

**Cyflenwyr cynnyrch a rôl gwneuthurwyr wrth gyflawni ymyrraethau arbenigol:** Mae cyrchu, ymchwilio a dadansoddi buddion cost cynnyrch yn rhan bwysig o asesu ac argymell addasiadau. Gall y broses fod yn faith os nad oes gan weithwyr/ymarferwyr fynediad rhwydd i wybodaeth cynnyrch. Gall gwneuthurwyr cynnyrch a chyflenwyr fod â rôl bwysig mewn gostwng oedi yn y broses addasu drwy ddarparu'r wybodaeth ddilynol:

- Sut y gellir defnyddio'r cynnyrch i wella perfformiad swyddogaethol.
- Pa faterion y gall/na all y cynnyrch eu trin.
- Dadansoddiad cost-budd cynnyrch.
- Enghreifftiau astudiaeth achos o sut y defnyddiwyd y cynnyrch yn y byd go iawn.

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith os ydych yn aelod o'r cyhoedd

### Neges allweddol i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r fframwaith i ddeall y lefel ymyrraeth neu fath o wasanaeth maent ei angen i addasu eu cartref

Mae'r fframwaith a'r tablau cefnogi yn eich helpu i ddeall y math o gyngor neu gymorth y byddwch chi neu aelod o'ch teulu ei angen i addasu'r cartref. Bydd deall yr wybodaeth hon yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am ba wasanaethau a all roi'r datrysiadau gorau ar gyfer eich sefyllfa.

**Dynodi'r math o ymyrraeth/gwasanaeth yr ydych chi neu berthynas ei angen i addasu eich cartref:** Caiff oedi ei osgoi pan fydd pobl yn gwybod pa fath o addasiad neu wasanaeth fydd yn rhoi'r canlyniad gorau iddyn nhw neu eu perthynas i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu cael o amgylch y cartref. Gall pobl ddefnyddio'r ***colofnau***

***natur cymhlethdod*** yn y tablau ymyrraeth (Tablau 2–4, Adran 3) i ddeall y math o wasanaeth a'r categori addasu maent yn debygol o fod ei angen ar gyfer pob lefel o ymyrraeth. Fel y trafodir dan *cyfeirio ar y pwynt cyswllt cyntaf* (uchod), mae cyfathrebu'r wybodaeth yma'n helpu i gyfeirio pobl at y gwasanaeth sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion yn y ffordd orau.

### Esiampl: Cyngor a chymorth wedi'i lywio ar fyw bob dydd ar gyfer pobl a phlant hŷn ac anabl

Mae AskSARA yn ddull hunan-gymorth rhyngweithiol ar-lein sy'n llywio defnyddwyr drwy nifer o gwestiynau syml am eu galluoedd ac amgylchedd, a rhoi cyngor a gwybodaeth diduedd a gwybodaeth ar gynnyrch ac offer i weddu i'w hanghenion.

**Mwy o wybodaeth:**

*https://asksara.dlf.org.uk*

**Hunanariannu a gwirio ansawdd gwasanaeth:** Os ydych yn talu eich hun am addasiad, mae'n bwysig gwybod fod y sgiliau cywir gan yr adeiladwr neu gwmni i fedru argymell a gosod yr addasiad. Mae hefyd yn bwysig gwybod p'un ai fyddwch yn manteisio o fewnbwn therapydd galwedigaethol a all asesu'r person a'r amgylchedd cartref ac yna ddynodi ac argymell datrysiadau. Gellir defnyddio'r golofn sgiliau gweithlu ar gyfer pob lefel o ymyrraeth fel rhestr wirio i sicrhau fod gan adeiladwr y sgiliau a'r wybodaeth gywir i argymell a gosod yr addasiad; yn ychwanegol bydd yn dangos p'un ai fyddwch angen mewnbwn gan therapydd galwedigaethol.

### Enghraifft: Siop un-stop yn galluogi hunan-gyfeirio ar draws daliadaethau

**Sefydliad:** Borders Care and Repair a gomisiynwyd gan Eildon Housing mewn partneriaeth gyda Scottish Borders Council Housing Strategy.

**Gwasanaethau:**

- Help a chyngor ar atgyweiriadau, gwelliannau ac addasiadau tai.
- Cwmpas: pobl hŷn a phobl gydag anableddau'n byw yn ardal gororau'r Alban sy'n berchenfeddianwyr neu'n byw mewn cartrefi preifat neu rent cymdeithasol.

**Dull/proses:**

- Siop un-stop ar gyfer addasiadau.
- Templedi gwerthuso opsiynau i gefnogi penderfyniadau.
- Mewnbwn therapi galwedigaethol ar achosion cymhleth a drud.

**Effaith a deilliannau:**

- Gwasanaeth addasu cyson a theg i bawb sy'n byw yn ardal Borders yr Alban pa bynnag fath o ddaliadaeth sydd ganddynt.

- Galluogi pobl i hunan-gyfeirio ar gyfer asesu ac addasiadau.
- Gostwng amserau aros.

**Gwybodaeth bellach:**

*https://www.scotborders.gov.uk/info/20070/care_at_home/520/care_and_repair_service*

# Atodiad 1
# Ffynonellau arweiniad ar ddylunio

Mae'r adran hon yn rhoi dolenni i ystod o ffynonellau defnyddiol o ganllawiau, dulliau ac adnoddau perthnasol y gellir eu defnyddio wrth ystyried dylunio addasiadau cartref cynhwysol a hygyrch. Mae'n cynnwys dolenni i ganllawiau am ffactorau i'w hystyried wrth ddylunio ar gyfer:

- Addasiadau.
- Tai cynhwysol a hygyrch.
- Amhariadau gwybyddol.
- Nam ar y golwg.

Mae'n bwysig wrth wneud argymhellion ar gyfer addasiadau fod ymarferwyr yn gwybod am eu priod gyfrifoldebau yng nghyswllt *Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015* (CDM 2015).[10] Cynghorir gwasanaethau i ymgynghori â'r rhain wrth ddatblygu unrhyw ganllawiau gweithredol ar gyfer eu staff.

## Addasiadau

Nod addasiadau cartref yw ei gwneud yn rhwyddach a diogelach i bobl gael mynediad i'w cartrefi eu hunain a'u defnyddio. Bydd ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer pob unigolyn, eu blaenoriaethau a'u hanghenion, ac agweddau neilltuol i'w hamgylchedd cartref. Mae'r canllawiau dilynol yn seiliedig ar dystiolaeth ar ofynion gofod a gweddluniau'n rhoi llinellau sylfaen defnyddiol ar gyfer datblygu addasiadau pwrpasol.

### Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon

Cyhoeddwyd *Adaptations design communications toolkit* gan Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon a chafodd ei ddatblygu drwy waith agos a gweithio rhyngasiantaeth gyda phobl anabl, therapyddion galwedigaethol, dylunwyr tai a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd Iwerddon.

Mae'r pecyn cymorth yn rhoi argymhellion manwl ar ofynion gofod a safleoedd i gefnogi dylunio addasiadau cartref pwrpasol. Yn ddull defnyddiol i werthuso gweddluniau ystafelloedd, mae'n rhoi safonau seiliedig ar dystiolaeth, cyson a theg ar ddylunio addasiadau tai ar gyfer pob math daliadaeth:

- Cynhwysir fformatau dylunio sy'n helpu i weld sut olwg sydd ar addasiadau tai arfaethedig a dangos sut mae pobl gydag anawsterau symudedd a gofalwyr yn defnyddio'r gofod.

10 Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2015) *Managing health and safety in construction: Construction (Design and Management) Regulations 2015*. [Llundain]: Y Llyfrfa. Ar gael yn: *http://www.hse.gov.uk/pUbns/priced/l153.pdf* Cyrchwyd ar 12.03.19.

- Fformatau therapi galwedigaethol safonol a chadarn ar gyfer argymhellion addasiadau tai, llywodraethiant ariannol, manylebion a chyfathrebu dilynol i bob darparydd tai.

*https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Adaptations-Design-Communications-Toolkit/*

## Muscular Dystrophy UK

*Adaptations manual: for children and adults with muscle wasting conditions*, diwygiwyd ar gyfer Muscular Dystrophy UK gan therapyddion galwedigaethol sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd sy'n byw gyda chyflyrau nychu'r cyhyrau, yn cynnwys enghreifftiau a gwybodaeth ymarferol am yr hyn sydd ar gael i deuluoedd, yn ogystal ag amlinelliad o'r broses o wneud addasiadau i'w cartrefi.

*https://www.musculardystrophyuk.org/about-muscle-wasting-conditions/information-factsheets/equipment-and-adaptations/adaptations-manual/*

## Sefydliad Byw i'r Anabl

Mae Sefydliad Byw i'r Anabl yn cynhyrchu nifer o ddalenni ffeithiau ar gyfer y cyhoedd, a gafodd eu hysgrifennu gydag adolygiad cymheiriaid gan therapyddion galwedigaethol profiadol, ar ffactorau i'w hystyried wrth ddewis offer byw bob dydd ac addasiadau. Maent yn cynnwys:

- Dewis a gosod canllawiau cydio.
- Dewis offer ar gyfer mynd i fyny a lawr y grisiau.

*https://www.dlf.org.uk/content/factsheets-groups*

## Foundations

Mae'r corff cenedlaethol ar gyfer asiantaethau gwella cartrefi yn Lloegr yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gwahanol fathau o addasiadau cartref yn cynnwys:

- Dylunio ramp.
- Addasiadau cawod.
- Addasiadau cegin

*https://www.foundations.uk.com*

## Care and Repair England

Mae'r sefydliad elusennol cenedlaethol hwn, a sefydlwyd i wella cartrefi ac amodau byw pobl hŷn, yn cynnig ystod o adnoddau defnyddiol ar atgyweiriadau ac addasiadau.

*http://careandrepair-england.org.uk*

### Gofal a Thrwsio Cymru

Y corff cenedlaethol ar gyfer gofal a thrwsio yng Nghymru, sydd â gweledigaeth o Gymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a chyfleus.

*www.careandrepair.org.uk*

### Care and Repair Scotland

Mae'r corff hwn yn cynnig cyngor a chymorth ymarferol i helpu perchnogion cartref hŷn ac anabl i drwsio, gwella neu addasu eu cartrefi.

*http://www.careandrepairscotland.co.uk*

### Design Council

Diben y Design Council yw gwneud bywyd yn well drwy ddylunio. Maent yn elusen annibynnol gyda gweledigaeth o fyd lle caiff rôl a gwerth dylunio eu cydnabod fel gwerth sylfaenol, gan alluogi bywydau mwy hapus, iach a diogel i bawb. Ffocws eu rhaglen Spark bresennol yw arloesi mewn cartrefi ac edrych ar droi syniadau da yn gynnyrch sy'n trawsnewid y profiad o fynd o amgylch, cofio pethau a gwneud tasgau dyddiol i alluogi byw mwy annibynnol.

*https://www.designcouncil.org.uk/what-we-do/accelerator/design-council-spark*

### Dunhill Medical Trust

Yn ogystal â chyllido ymchwil academaidd a chlinigol orau oll y Deyrnas Unedig ar ddeall mecanwaith heneiddio a thrin clefydau cysylltiedig ag oedran a llesgedd, mae'r Dunhill Medical Trust hefyd yn cefnogi sefydliadau cymunedol sy'n gweithio i gyfoethogi bywydau rhai sydd angen cymorth ychwanegol pan fyddant yn hŷn. Maent wedi cyhoeddi rhaglen ymchwil newydd yn ddiweddar fydd yn mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth ar addasiadau a thechnoleg gynorthwyol i alluogi byw annibynnol, diogelwch gydag urddas.

*https://dunhillmedical.org.uk/2018/09/03/expert-in-the-future-of-housing-for-an-ageing-population-take-a-look-at-our-latest-call-for-proposals/*

## Tai cynhwysol a hygyrch

Mae nifer o adnoddau ar gael i gefnogi dylunio, adeiladau ac ôl-osod tai cynhwysol a hygyrch. Y bwriad craidd yw creu cartrefi sy'n hyblyg ac y gellir eu haddasu i ddiwallu ystod o anghenion.

### Housing Learning and Improvement Network

Mae'r Housing Learning and Improvement Network (Housing LIN) yn dod ynghyd â gweithwyr proffesiynol ym meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ddangos datrysiadau tai arloesol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae *Occupational therapists: helping to get the housing design right* yn gasgliad o ddolenni i adnoddau i gefnogi dylunio tai cynhwysol a hygyrch.

*https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/occupational-therapy*

Mae *An occupational therapist's access checklist: practical tool yn rhestr* wirio cyfeirio cyflym i reoliadau a chanllawiau arfer gorau presennol ar ddylunio tai cynhwysol a hygyrch, yn cwmpasu'r isafswm gofynion ar gyfer darpariaeth mwy hael. Caiff agweddau allweddol o'r cartref eu cynnwys, o fynediad a dull gweithredu i gynlluniau mewnol.

*https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/An-Occupational-Therapists-Access-Checklist-a-practical-tool*

## Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydeinig (RIBA)

Mae RIBA yn gorff aelodaeth proffesiynol byd-eang sy'n hybu rhagoriaeth mewn pensaernïaeth. Mae'n cefnogi ei aelodau i ddarparu gwell adeiladau a lleoedd, cymunedau cryfach ac amgylchedd cynaliadwy.

Mae trydydd rhifyn y *Wheelchair housing design guide* (2018) yn rhoi cyngor ac ystyriaethau dylunio i gefnogi darpariaeth tai ansawdd da hygyrch i gadair olwyn. Mae'n rhoi manylion sut i gyflawni a rhagori ar yr isafswm gofynion a nodir yn *The building regulations: approved document M: volume 1: dwellings: category 3: wheelchair accedssible* (ADMA(3)).[11] Cafodd ei gynhyrchu gan gyfranwyr o'r RIBA, Canolfan Amgylcheddau Hygyrch ac Adran Arbenigol y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol – Tai, ynghyd â mewnbwn gan groestoriad o arbenigwyr yn cynnwys rheoli adeiladu, penseiri, datblygwyr a gweithwyr tai proffesiynol eraill. Mae'n cynnwys:

- Croes-gyfeiriadau clir i ADM4(3).
- Diagramau technegol yn dangos manylion dylunio.
- Canllawiau syml eu dilyn ar arfer gorau a darpariaethau technegol

*https://www.habinteg.org.uk/whdg3*

Mae *Age-friendly housing: future design for older people* (Park and Porteus 2018) yn nodi sut y dylem fynd ati i ddylunio tai'r dyfodol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'n edrych sut y gall adeiladau wedi'u cynllunio'n dda, hygyrch ac addasadwy helpu i hwyluso darpariaeth gofal, cymorth, annibyniaeth a llesiant, ac mae hefyd yn cynnwys adran ar addasiadau ac adnewyddu.

*https://www.ribabookshops.com/item/age-friendly-housing-future-design-for-older-people-91915*

## Adran Arbenigol Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol – Tai (RCOTSS-H)

Mae RCOTSS-H yn fforwm ar gyfer therapyddion galwedigaethol sydd â diddordeb mewn tai, dylunio cynhwysol ac amgylcheddau cartref hygyrch. Mae'n gweithio'n agos gyda sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill i hyrwyddo gwella safonau tai ar gyfer pobl hŷn ac anabl.

*https://www.rcot.co.uk/about-us/specialist-sections/housing-rcot-ss*

11 Prydain Fawr, Llywodraeth Ei Mawrhydi (2015) *The building regulations : approved document M: access to and use of buildings: volume 1: dwellings*. [Newcastle Upon Tyne]: NBS. Ar gael yn: *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/540330/BR_PDF_AD_M1_2015_with_2016_amendments_V3.pdf* Cyrchwyd ar 13.03.19.

### Centre for Ageing Better

Mae'r Centre for Ageing Better yn elusen, a gyllidir gan waddol o Gronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol, sy'n gweithio i greu cymdeithas lle mae pawb yn mwynhau gwell henoed. Mae eu rhaglen waith Cartrefi Diogel a Hygyrch yn anelu i sicrhau fod cartrefi newydd yn addas ar gyfer y dyfodol a bod amrywiaeth o gartrefi addas, y caiff cartrefi presennol eu haddasu, a bod gwell gwybodaeth ar gael i bobl sy'n agosáu at henoed.

*https://www.ageing-better.org.uk/our-work/safe-accessible-homes*

### Centre for Accessible Environments

Mae'r Centre for Acessible Environments yn awdurdod blaenllaw ar ddylunio cynhwysol. Mae'n darparu ymgynghoriaeth, hyfforddiant ac ymchwil. Mae ganddi hefyd ddetholiad o gyhoeddiadau am ddim ac eraill ar werth ar ddylunio a rheoli adeiladu i ddiwallu holl anghenion defnyddwyr, yn cynnwys pobl anabl a hŷn.

*https://cae.org.uk/*

## Amhariadau gwybyddol

Gall dyluniad yr amgylchedd gael effaith sylweddol ar allu pobl gydag amhariadau gwybyddol a niwro-amrywiol i wneud synnwyr o'u hamgylchiadau a chefnogi annibyniaeth. Gall hyn gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, anabledd dysgu neu anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Mae'r dilynol yn rhoi arweiniad ar y ffactorau i'w hystyried.

### Beyond Accessibility

Mae Beyond Accessibility yn dîm o therapyddion sy'n arbenigo ar sut mae pobl yn byw yn yr amgylchedd cartref.

Mae *99 ideas to make homes easier, safer and more enjoyable for families with children on the autism spectrum* gan Paige Hays (2017) yn rhoi syniadau ac argymhellion penodol i gynllunio ardaloedd cartref ar gyfer teuluoedd gydag aelodau sydd ag ASD.

*http://beyondaccessibility.com/homes-autism-spectrum-disorder*

### The Challenging Behaviour Foundation

Mae'r Challenging Behaviour Foundation (CBF) yn elusen ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu difrifol sy'n arddangos ymddygiad a ddisgrifir fel heriol. Mae'r CBF yn rhoi gwybodaeth ac adnoddau i alluogi teuluoedd i weithio gydag eraill i gynllunio'n rhyngweithiol ar gyfer tai personol ar gyfer eu perthynas.

*https://www.challengingbehaviour.org.uk*

### Helen Hamlyn

Mae Canolfan Dylunio Helen Hamlyn yn y Coleg Celf Brenhinol yn cynnal ymchwil a phrosiectau dylunio gyda diwydiant fydd yn cyfrannu at wella bywydau pobl.

Mae *Living in the community: housing design for adults with autism* (Brand 2010) yn rhoi manylion y canfyddiadau partneriaeth ymchwil rhwng Ymddiriedolaeth Kingswood a Helen Hamlyn, gyda ffocws neilltuol ar ddarparwyr tai, penseiri a dylunwyr sy'n ymwneud â dylunio, ailwampio a datblygu llety preswyl ar gyfer oedolion gydag awtistiaeth.

*https://www.rca.ac.uk/documents/390/Living_in_the_Community.pdf*

### Centre for Excellence in Universal Design: Awdurdod Anabledd Cenedlaethol/National Disability Authority

Mae'r Centre for Excellence in Universal Design yn ymroddedig i alluogi dylunio amgylcheddau a all gael eu cyrchu, eu deall a'u defnyddio heb ystyried oedran, maint nac anabledd.

Cyhoeddwyd *Universal Design guidelines: dementia friendly dwellings for people with dementia, their families and carers* yn 2015 gan yr Awdurdod Anabledd Cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon i roi gwybodaeth i'r rhai sy'n comisiynu, dylunio, adeiladu, darparu a byw mewn anheddau. Nod dull cyfeillgar i dementia Universal Design yw helpu pobl i barhau i fyw adref ac yn eu cymuned yn annibynnol ac yn ddiogel cyhyd ag sydd modd.

*http://universaldesign.ie*

### Dementia Services Development Centre (DSDC), Prifysgol Sterling

Mae'r DSDC yn ganolfan ryngwladol o wybodaeth ac arbenigedd sy'n ymroi i wella bywydau pobl gyda dementia. Mae'n defnyddio ymchwil ac ymarfer o bob rhan o'r byd i roi adnodd cynhwysfawr a chyfredol ar bob agwedd o dementia.

*https://dementia.stir.ac.uk/abount-dsdc*

## Nam ar y golwg

Gall sylw i lefelau a lleoliad goleuadau a gwrthgyferbyniad rhwng lliwiau gael effaith sylweddol ar allu pobl gyda cholli golwg i ganfod eu ffordd o amgylch, a helpu i'w wneud yn rhwyddach ac yn ddiogelach i wneud gweithgareddau bob dydd.

### Housing Learning and Improvement Network

Mae ystod cynhwysfawr o wybodaeth ar ddylunio a goleuadau ar gyfer pobl gyda cholli golwg ar gael ar dudalennau neilltuol.

*https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/sight-loss-home-the-built-environment/*

## Thomas Pocklingtron Trust

Mae'r Thomas Pocklington Trust yn elusen genedlaethol sy'n ymroddedig i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer pobl gyda cholli golwg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ariannu ymchwil i gefnogi byw annibynnol a dynodi rhwystrau a chyfleoedd mewn megis fel cyflogaeth, tai a thechnoleg.

*Making an entrance: colour, contrast and design of entrances to homes of people with sight loss* (2013)

*http://pocklington-trust.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/Check-List.pdf*

*Lighting in and around the home: a guide to better lighting for people with sight loss* (2018)

*http://www.pocklington-trust.org.uk/project/lighting-around-home-guide-better-lighting-people-sight-loss*

*Good practice in the design of homes and living spaces for people with dementia and sight loss* (Greasley-Adams et al. 2011; cynhyrchwyd ar y cyd gan y Thomas Pocklington Trust a DSDC)

*http://dementia.stir.ac.uk/design/good-practice-design-dementia-and-sight-loss*

## Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Deillion (RNIB)

Mae'r RNIB yn un o brif elusennau colli golwg y Deyrnas Unedig a'r gymuned fwyaf o bobl ddall a golwg rhannol. Mae ganddynt dudalen gwefan bwrpasol sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i bobl sy'n colli eu golwg neu sydd â phroblem gyda'u golwg. Mae'n esbonio'r mathau o welliannau, atgyweiriadau neu addasiadau y gall fod eu hangen i helpu pobl gyda cholli golwg i fyw'n annibynnol.

*https://www.rnib.org.uk/information-everyday-living-home-and-leisure/adapting-your-home*

# Atodiad 2
# Dull a chanfyddiadau'r adolygiad

Comisiynodd y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) dîm o'r Housing Learning and Improvement Network (Housing LIN), oedd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol i:

- Penderfynu os oedd angen yn dal i fod ar gyfer cyhoeddiad *Minor adaptations without delay*, Rhan 1.
- Penderfynu os oedd angen yn dal i fod ar gyfer cyhoeddiad *Minor adaptations without delay*, Rhan 2 (Manylebion Technegol).
- Sicrhau y cynhyrchwyd fersiwn diwygiedig o *Minor adaptations without delay* a fyddai'n cael ei werthfawrogi gan randdeiliaid allweddol ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig ac yn gynrychioladol o ymarfer therapi galwedigaethol.
- Codi proffil proses asesu therapyddion galwedigaethol mewn addasiadau ataliol ac yn dangos pryd mae angen eu harbenigedd.

Cafodd fersiwn gwreiddiol *Minor adaptations without delay* (MAWD) a gyhoeddwyd yn 2006 ei gomisiynu ar y cyd gan y Coleg Therapyddion Galwedigaethol a'r gyn Gorfforaeth Tai. Roedd y canllawiau mewn dau ran:

- Rhan 1: Canllawiau ymarferol ar gyfer cymdeithasau tai, yn cynnwys rhestr o fân addasiadau nad ydynt angen asesiad therapi galwedigaethol ac yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer arfer da mewn darpariaeth.
- Rhan 2: Manylebion Technegol, sy'n rhoi arweiniad ar osod detholiad o fân addasiadau.

Prif nod MAWD oedd galluogi darparu mân addasiadau mewn modd mwy amserol ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai.

Roedd yr adolygiad o MAWD, a gynhaliwyd yn ystod 2018, yn cynnwys:

- Adolygiad bwrdd gwaith o bolisi, deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol ac ymchwil allweddol perthnasol i ddarpariaeth a buddion addasiadau cartref ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig.
- Ymchwil sylfaenol, oedd yn cynnwys:
    - Cyfweliadau gyda 31 o randdeiliaid proffesiynol (Ionawr i Ebrill 2018)
    - Arolwg ar-lein wedi'i anelu at ymarferwyr rheng-flaen y cafwyd dros 800 ymateb iddo
    - Grwpiau trafod gyda rhanddeiliaid ym mhob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig (Mai/Mehefin 2018).

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda:

- Rheolwyr therapi galwedigaethol
- Arweinwyr polisi therapi galwedigaethol ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig
- Cymdeithasau tai
- Cyrff cenedlaethol ar gyfer asiantaethau gwella cartrefi
- Sefydliadau gofal a thrwsio
- Adran Arbenigol Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol - Arweinwyr tai ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig

Wedyn cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp ffocws ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig, yn cynnwys grwpiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, cyfarfod ymgynghori ag ymarferwyr ym Manceinion; cyflwyniad yn yr Home Adaptations Consortium, Lloegr. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cyfarfod ar y cyd fel rhan o'r Adolygiad Grant o Gyfleusterau Anabl yn Lloegr.

Diben yr ymchwil sylfaenol yma oedd:

- Asesu i ba raddau y cyflawnodd cyhoeddiad gwreiddiol MAWD ei nod.
- Ar draws y pedair cenedl, dynodi'r materion cyffredin sy'n effeithio ar y broses o ddarparu (mân) addasiadau.
- Canfod y bylchau a ddynododd rhanddeiliaid yn y cyhoeddiad gwreiddiol.
- Dynodi'r cynnwys a'r adnoddau sydd eu hangen mewn canllaw newydd Adaptations without delay.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt i ba raddau y mae MAWD wedi cyflawni ei nodau yn cynnwys:

- Ar gyfer y cymdeithasau tai y targedwyd MAWD atynt, bu ac mae'n parhau i fod yn adnodd gwerthfawr (ond nid oedd rhai cymdeithasau tai yn gwybod am MAWD).
- Mae rheolwyr therapi galwedigaethol wedi'i ddefnyddio fel arf negodi gyda chymdeithasau tai yng nghyswllt eu rôl a'u cylch gorchwyl.
- Defnyddiwyd MAWD i ddatblygu Cytundebau Addasiadau rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.
- Mae sôn am MAWD mewn nifer o adroddiadau a chanllawiau tu allan i Loegr.

Fodd bynnag, canfu'r adolygiad o MAWD hefyd:

- Yn ymarferol, mae rhai cymdeithasau tai yn dal i atgyfeirio at dimau therapi galwedigaethol.
- Mae therapyddion galwedigaethol eisiau gweithio mewn ffyrdd creadigol (tu hwnt i weithio gyda chymdeithasau tai), ond nid yw MAWD yn rhoi sicrwydd nac arweiniad ar sut i wneud hynny.
- Ni chafodd y broses o ddarparu (mân) addasiadau heb asesiad therapi galwedigaethol ei hehangu'n gyffredinol i fod yn weithredol ar draws daliadaethau.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt y materion cyffredin ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig am y broses o ddarparu addasiadau yn cynnwys:

- Mae oedi yn parhau i fod wrth ddarparu mân addasiadau ar gyfer pobl mewn daliadaethau preifat.
- Mae oedi'n parhau i fod wrth ddarparu addasiadau mawr ar draws daliadaethau.
- Nid yw rhai cymdeithasau tai yn darparu mân addasiadau heb asesiad therapi galwedigaethol.
- Ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig, caiff addasiadau eu diffinio yn ôl math (mân/mawr) a chost yn hytrach na gan gymhlethdod amgylchiadau yr unigolyn (h.y. yn gysylltiedig â'u hanghenion a'u hamgylchedd cartref).
- Mae lefelau amrywiol o sgiliau a chymhwysedd ymysg unigolion sy'n cyfeirio at y pwynt cyswllt cyntaf mewn tai, iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector preifat.
- Mae diffyg gwybodaeth yn parhau am unigolion ynghylch addasiadau; sut i benderfynu beth allent fod ei angen, pryd i ymgynghori â therapi galwedigaethol, pa gyllid sydd ar gael a phwy all gyflawni'r gwaith.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt y bylchau a ddynododd rhanddeiliaid yn y cyhoeddiad gwreiddiol yn cynnwys:

- Nid yw MAWD yn rhoi arweiniad digonol ar y meini prawf ar gyfer pryd a pham mae neu nad oes angen therapi galwedigaethol.
- Mae prif ffocws y canllawiau presennol ar gymdeithasau tai a'u tenantiaid.
- Mae'r canllawiau presennol yn seiliedig ar bapur; mae angen fersiwn ar-lein erbyn hyn.
- Mae'r canllawiau presennol yn llai perthnasol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru nag yn Lloegr.

Roedd y **canfyddiadau** yn ymwneud â'r cynnwys a'r adnoddau sydd eu hangen mewn canllawiau newydd *Addasiadau heb oedi* yn cynnwys:

- Fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar gymhlethdod yr 'achos' yng nghyswllt addasiadau.
- Fframwaith rhesymu ar gyfer pryd *nad* oes angen therapydd galwedigaethol.
- Yn y ddau achos (uchod) nid oes angen canllawiau am pryd nad oes angen asesiad therapi galwedigaethol ar gyfer argymell gwahanol fathau o addasiadau.
- Diffiniad o addasiadau mân a mawr nad ydynt yn seiliedig ar gost.
- Enghreifftiau wedi eu diweddaru o arfer da wrth ddarparu addasiadau.
- Hyfforddiant/cymwysterau a argymhellir, yn neilltuol ar gyfer therapyddion analwedigaethol a all fedru argymell addasiadau.
- Canllawiau sy'n berthnasol ar draws pob pedair cenedl y Deyrnas Unedig.

Fe wnaeth y grwpiau trafod yn benodol ddynodi defnydd anghymesur sgiliau arbenigol (h.y. therapydd galwedigaethol) yng nghyswllt yr asesiad ar gyfer a darparu addasiadau ac fel mater y dylai'r canllawiau newydd hyn eu cyfarch.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt y materion cyffredin ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig am y broses o ddarparu addasiadau yn cynnwys:

- Mae oedi yn parhau wrth ddarparu mân addasiadau ar gyfer pobl mewn daliadaethau preifat.
- Mae oedi yn parhau wrth ddarparu addasiadau mawr ar draws daliadaethau.
- Nid yw rhai cymdeithasau tai yn darparu mân addasiadau heb asesiad therapi galwedigaethol.
- Ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig, caiff addasiadau eu diffinio yn ôl math (mân/mawr) a chost yn hytrach na chael eu diffinio gan gymhlethdod amgylchiadau'r unigolyn (h.y yn gysylltiedig â'u hanghenion a'u hamgylchedd cartref).
- Mae lefelau amrywiol o sgiliau a chymhwysedd ymysg unigolion sy'n cyfeirio at y prif gyswllt cyntaf mewn tai, iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector preifat.
- Mae diffyg gwybodaeth yn parhau ar gyfer unigolion heb addasiadau; sut i benderfynu beth y gallent fod ei angen, pryd i ymgynghori â therapydd gwleidyddol, pa gyllid sydd ar gael a phwy all wneud y gwaith.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt y bylchau a ddynododd rhanddeiliaid yn y cyhoeddiad gwreiddiol yn cynnwys:

- Nid yw MAWD yn rhoi digon o ganllawiau ar y meini prawf ar gyfer pryd a pham mae neu nad oes angen therapydd galwedigaethol.
- Mae prif ffocws y canllawiau presennol ar gymdeithasau tai a'u tenantiaid.
- Mae'r canllawiau presennol yn seiliedig ar bapur; mae angen fersiwn ar-lein erbyn hyn.
- Mae'r canllawiau presennol yn llai perthnasol i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban nag i Loegr.

Roedd y **canfyddiadau** yng nghyswllt y cynnwys a'r adnoddau sydd eu hangen mewn canllawiau newydd *Addasiadau heb oedi* yn cynnwys:

- Fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar gymhlethdod yr 'achos' yng nghyswllt addasiadau.
- Fframwaith rhesymu ar gyfer pryd nad oes angen therapydd galwedigaethol.
- Yn y ddau achos (uchod), nid oes angen canllawiau am pryd nad oes angen asesiad therapi galwedigaethol ar gyfer argymell gwahanol fathau o addasiadau.
- Diffiniad o addasiadau mân a mawr nad yw'n seiliedig ar gost.
- Enghreifftiau wedi eu diweddaru o arfer da wrth ddarparu addasiadau.
- Hyfforddiant/cymwyseddau a argymhellwyd, yn neilltuol ar gyfer therapyddion analwedigaethol a all fedru argymell addasiadau.
- Canllawiau sy'n weithredol ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig.

Fe wnaeth y grwpiau trafod yn benodol ddynodi'r defnydd anghymesur o sgiliau arbenigol (h.y. therapydd galwedigaethol) yng nghyswllt asesu a darparu addasiadau fel mater y dylai'r canllawiau newydd hyn ei gyfarch.

# Am yr awduron

## Rachel Russell PHd, MSc, BSc (Anrh) Therapi Galwedigaethol

Mae Rachel yn therapydd galwedigaethol, darlithydd ac ymchwilydd yn seiliedig ym Mhrifysgol Salford. Gyda 18 mlynedd o brofiad o weithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol oedolion, mae wedi ymwneud yn uniongyrchol ag asesu a darparu addasiadau cartref mewn nifer o awdurdodau lleol. Ers 2011, mae ei hymchwil wedi canolbwyntio ar y broses addasiadau cartref yn y Deyrnas Unedig, yn neilltuol rôl therapyddion galwedigaethol yn y broses yma.

## Marney Walker DipCOT, BA, MA

Mae Marney Walker yn therapydd galwedigaethol annibynnol gyda 25 mlynedd o brofiad mewn tai a gofal cymdeithasol. Mae'n arbenigo mewn cynghori ar ddylunio tai cynhwysol a hygyrch ac addasiadau. Mae ganddi MA mewn Ymchwil Dylunio ar gyfer Anabledd ac mae wedi addysgu ar lefel meistr. Mae'n cynnal tudalen gwefan o adnoddau ar Hyb Dylunio Housing LIN, mae'n Asesydd Dylunio Cynhwysol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ddinesig ac yn aelod o'r Gymdeithas Mynediad.

## Ian Copeman BSc, MSc

Mae Ian yn arwain rhaglen Housing LIN o ymgynghoriaeth ymchwil a masnachol. Bu'n gweithio'n flaenorol fel comisiynydd awdurdod lleol o wasanaethau tai a gofal, ar gyfer cymdeithasau tai ac i sefydliadau sector gwirfoddol sy'n cefnogi pobl gydag anableddau.

Mae ganddo hanes helaeth o gynnal prosiectau ymchwil mewn tai a gofal yng nghyswllt pobl hŷn ac anabl. Mae ei brosiectau diweddar gyda phroffil cyhoeddus uchel yn cynnwys gweithio mewn consortiwm gyda Ipsos MORI ar Adolygiad Llety â Chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar draws Lloegr, Cymru a'r Alban. Ef yw awdur adroddiad *Home from hospital* y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol ac adroddiad *Housing our ageing population* y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Yn flaenorol bu'n ymddiriedolydd elusen sy'n darparu cyngor a chymorth tai ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

## Jeremy Porteus FRSA, Prif Weithredwr, Housing LIN

Arferai Jeremy fod yn Arweinydd Cenedlaethol Tai yn yr Adran Iechyd yn gyfrifol am y rhaglen cyfalaf Tai Gofal Ychwanegol. Ar ôl gadael yr adran, sefydlodd gorff annibynnol Housing LIN (Learning and Improvement Network), yn dod ynghyd â dros 25,000 o ymarferwyr tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ddynodi ac arddangos datrysiadau tai arloesol ar gyfer poblogaeth heneiddiol.

Mae gweithgareddau rhad ac am ddim rhannu gwybodaeth Housing LIN, ynghyd â'i fusnes ymgynghori, yn darparu gwybodaeth a dirnadaeth marchnad ar y cyllid, ymchwil, polisi ac ymarfer diweddaraf i ysbrydoli gwell dewisiadau tai a gofal.

Mae Jeremy yn Ysgrifennydd Ymchwiliad ac awdur adroddiadau dylanwadol HAPP12, HAPP13 a HAPP14 ar gyfer y Grŵp Seneddol Ollbleidiol ar Iechyd a Gofal ar gyfer Pobl Hŷn. Roedd hefyd yn gyd-awdur cyhoeddiad 2018 RIBA: *Age-friendly housing: Future design for older people.*

*https://www.housinglin.org.uk*

# Addasiadau heb oedi

*Canllawiau ar gynllunio a darparu addasiadau cartref mewn modd gwahanol*

Mae gan addasiadau rôl hanfodol mewn atal ac mae angen eu darparu mewn modd amserol. Mae'r cyhoeddiad hwn, a gomisiynodd RCOT gan Housing LIN, yn dangos sut y gellir darparu addasiadau ym mhob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig gan roi lle canolog i'r unigolyn. Mae'r ddogfen yn amlygu sut mae therapyddion galwedigaethol yn ychwanegu gwerth i'r broses, yn ogystal â'r rhesymeg ar gyfer pan mae eu hangen oherwydd cymhlethdod amgylchiadau unigol. Yn dilyn ymgynghoriad eang gydag ystod o randdeiliaid yn cynnwys asiantaethau gwella cartrefi a chymdeithasau tai, bydd y canllawiau pwysig yma'n cynorthwyo rheolwyr gofal cymdeithasol a thai am y ffordd orau i ddarparu addasiadau yn lleol.

Ar gael i'w lawrlwytho

www.rcot.co.uk
Ffôn: 020 7357 6480

© 2019 Coleg Therapyddion Galwedigaethol Cyf. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573) a chwmni cofrestredig yn Lloegr (Rhif 1347374)

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol